**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26.**

**This response was submitted to the Finance Committee consultation on the Welsh Government Draft Budget 2025-26.**

**WGDB25-26(6)73: Ymateb gan: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru(CLLC) | Response from: Welsh Local Government Association (WGLA)**

---

# Tystiolaeth

29 Tachwedd 2024

# Y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Craffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**
Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol.

Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o Gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r 3 pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**
Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Trwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod yn y pen draw** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau cynghorau yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**
- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau'r disgresiwn lleol mwyaf posib o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid hirdymor a chynaliadwy i gynghorau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithlu'n effeithiol

## Trosolwg

1. Mae'r papur tystiolaeth hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiynau a ofynnwyd gan y pwyllgor yn atodiad 2 i'r llythyr comisiynu. Mae'n seiliedig yn bennaf ar y papur a gyflwynwyd gennym i Lywodraeth Cymru yng nghyfarfod yr Is-grŵp Cyllid ar 23 Hydref.

2. Roedd y rhan fwyaf ohono yn cynnwys ein hasesiad o bwysau gwario llywodraeth leol sydd wedi parhau'n gyson uchel yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Ar adeg ysgrifennu'r papur, roeddem yn casglu data ar effaith y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwlad. Rydym yn casglu data ar yr effaith uniongyrchol ac ar effaith gofal cymdeithasol a gomisiynwyd – bydd y data ar gael i'r pwyllgor gyda hyn.

## Cwestiynau'r Pwyllgor

Beth, yn eich barn chi, fu effaith Cyllideb 2024-25 Llywodraeth Cymru?

3. Llynedd bu i ni adrodd y byddai'r pwysau ariannol ar y llywodraeth leol yn £720 miliwn yn 2024-25. Roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer pensiynau athrawon a diffoddwyr tân ac ynghylch elfen o gyflogau athrawon. Bydd y mater o ran pensiynau'n cael ei ddatrys gyda hyn, ac mae dyraniadau wedi'u cylchredeg ddiwedd mis Tachwedd 2024. Rhoddodd y setliad canlyniadol gynnydd o 3.3% neu £180 miliwn yn ychwanegol i'r llywodraeth leol, a gadawodd hynny ynghyd â £110 miliwn o incwm Treth y Cyngor fwlch amcangyfrifedig o oddeutu £400 miliwn yn y gyllideb – a oedd yn golygu penderfyniadau anodd iawn i wasanaethau anstatudol a mwy a mwy o ysgolion. Mae'r problemau gyda chyllidebau ysgolion wedi'u nodi yn yr atodiad, paragraffau 19 i 31, sy'n crynhoi cyflwr y gwasanaeth, ffabrig adeiladau ysgol a chronfeydd wrth gefn ysgolion.

4. Yn yr adroddiad i'r Is-Bwyllgor Cyllid, ynghlwm wrth Atodiad I, adroddwn am orwariant rhagamcanol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol o £238 miliwn. Mae £106 miliwn ohono'n ymwneud â gofal cymdeithasol, £92 miliwn yn ymwneud ag addysg a £40 miliwn yn ymwneud â gwasanaethau eraill. Mae effaith hynny'n golygu bod penderfyniadau anodd wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn.

Pa mor barod yn ariannol yw'ch sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, sut y bydd chwyddiant yn effeithio ar eich gallu i gyflawni amcanion sydd wedi'u cynllunio, a pha mor gadarn yw'ch gallu i gynllunio ar gyfer blynyddoedd i ddod?

5. Yn ystod yr haf cynaliasom arolwg gyda'n cyfarwyddwyr ariannol, gan gasglu data a gwybodaeth am gynlluniau ariannol tymor canolig awdurdodau lleol ar

gyfer y flwyddyn nesaf a'r ddwy flynedd ganlynol. Amcangyfrif y bydd y pwysau ariannol y flwyddyn nesaf yn £559 miliwn. Byddai hyn yn gofyn am gynnydd o ychydig dros 7% mewn gwariant refeniw net[1].Mae'r pwysau yn ddidostur dros y blynyddoedd nesaf, ond yn gostwng ychydig i £454 miliwn yn 2026-27 ac yn codi ychydig i £464 miliwn yn 2027-28. Mae pwysau ariannol y flwyddyn nesaf yn ddwbl yr hyn a ddisgwylir fel arfer ac fe geir papur cyfan yn yr atodiad yn manylu ar hyn. Mae gofal cymdeithasol yn cyfrif am 40% (£223 miliwn) o bwysau yn 2025-26, mae ysgolion yn cyfrif am 22% (£120 miliwn) o'r pwysau ac mae gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol yn cyfrif am y 40% sy'n weddill (£224 miliwn).

6. Gyda'i gilydd, mae'r pwysau sy'n cronni yn y system yn dod i £1.478 biliwn ac mae'r bwlch yn y gyllideb sy'n deillio o hynny yn golygu bod y rhagolygon yn heriol iawn a'r opsiynau ar gyfer llawer o wasanaethau lleol yn annymunol. Bydd mynd i'r afael â phwysau o £559 miliwn, heb gyllid ychwanegol, yn gofyn am gymysgedd o gynnydd yn nhreth y cyngor, toriadau i wasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd. Mae'r pwysau cyfwerth â chynnydd o 26% yn nhreth y cyngor, neu golli bron i 14,000 o swyddi[2].

<u>Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â chwyddiant a thrafferthion costau byw?</u>

7. Tra bod y llywodraeth yn darparu cyngor a gwybodaeth ategol ar eu gwefan, gellir gwneud mwy o ran cynlluniau cefnogi penodol wedi'u teilwra. Mae cynghorau lleol yn Lloegr wedi llwyddo i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu drwy'r Gronfa Cefnogi Aelwydydd. Mae'r gronfa hon ar gyfer unrhyw un sy'n ddiamddiffyn neu'n methu talu am hanfodion ac mae rhwydd hynt i gynghorau weithredu eu cynlluniau cefnogi eu hunain. Maent hefyd yn gallu defnyddio asiantaethau partner i helpu i weinyddu'r cyllid i'r rheiny â'r angen mwyaf.

8. O'r cyhoeddiad cyntaf ym mis Medi 2024 hyd heddiw, mae cyfanswm o £3.5 biliwn wedi'i roi yn y cynllun hwn gyda'r llywodraethau datganoledig yn penderfynu sut y dylid defnyddio'r arian. Oherwydd y penderfyniad i beidio â throsglwyddo cyllid canlyniadol cyfwerth i gynghorau Cymru, nid ydym wedi gallu cynnig yr un lefel o gefnogaeth i'n preswylwyr ni. Mae cyllid ychwanegol wedi'i roi yn y Gronfa Cymorth Dewisol ond mae cwmpas honno'n gyfyngedig ac nid ydym wedi llwyddo i gyflwyno cynlluniau cefnogi arloesol fel y rheiny ab geir yn Lloegr.

[1] Cyfanswm y gyllideb gwariant refeniw net ar gyfer 2024-25 yw £7.762 biliwn (Ffynhonnell: Ffurflenni Cyfrif Refeniw Llywodraeth Cymru).
[2] Gweler tabl 3 yn Natganiad Ystadegol 2024-25 Lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru (Lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, 2021-22 (llyw.cymru)), mae cyfanswm incwm treth y cyngor yn £2.148 biliwn ar hyn o bryd. Amcangyfrifir fod swydd gyffredin yn costio £40,000 (yn cynnwys argostau).

<u>Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol, ôl-ddiwydiannol a gwledig, gan gynnwys adeiladu tai fforddiadwy a chefnogi economïau o fewn y cymunedau hynny?</u>

9. Dylai'r lefel bresennol o gymorthdaliadau cyfalaf a fuddsoddir gan y llywodraeth i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol ar draws Cymru gael ei hystyried yn fan cychwyn yn hytrach na phwynt uchel ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol i ddarparu cartrefi newydd sydd wir eu hangen. Dylai grant tai cymdeithasol ychwanegol fod ar gael. Bydd setliad aml-flwyddyn iach gan Lywodraeth Cymru yn rhoi hyder i landlordiaid cymdeithasol, datblygwyr a phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi ac yn rhoi sicrwydd iddynt allu cynllunio, ariannu a darparu nifer cynyddol o gartrefi fforddiadwy.

10. Dylai hyn gynnwys mwy o sicrwydd ynghylch polisi rhenti a threfniadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer ôl-osod cartrefi. Yn unol â'r argymhelliad yn sgil ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i'r cyflenwad o dai cymdeithasol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu corfforaeth datblygu cenedlaethol i arwain ar gyflawni safleoedd strategol mawr ac i gefnogi alinio tai ac ymdrechion adfywio.

<u>A yw polisïau cymorth busnes Llywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol, o ystyried y rhagolygon economaidd ar gyfer 2025-26?</u>

11. Tra bod Busnes Cymru wedi darparu ychydig o raglenni cyffredinol o gefnogaeth i fusnesau, mae'n bwysig cydnabod rôl hanfodol cynghorau wrth gefnogi cwmnïau lleol. O ganlyniad i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin mae cynghorau wedi ailadeiladu eu gallu i weithio gyda busnesau yn eu hardaloedd. Yn ôl adborth gan gynghorau mae'r gefnogaeth hon wedi derbyn croeso mawr ac wedi arwain at ehangu busnesau, creu swyddi a chyfleoedd hyfforddiant.

12. Tra bod cael gwahanol gyrff yn cynnig cyngor a chymorth yn ddryslyd i fusnesau, a'r cynnig hwnnw'n amrywio o ardal i ardal, gelir goresgyn hynny drwy gydweithio'n agos a chael sgyrsiau rheolaidd. Gall dull 'Tîm Cymru' sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n glir o'r cychwyn cyntaf a helpu i osgoi dyblygu ymdrechion. Mae yna fanteision mawr cael cyswllt lleol, gyda chysylltiadau uniongyrchol â'r ystod lawn o wasanaethau cyngor eraill (e.e. casgliadau gwastraff/ailgylchu, priffyrdd, cynllunio, iechyd yr amgylchedd), gan gynnig cyngor a chefnogaeth wyneb yn wyneb i fusnesau lleol. Yn 2025/26 ac wedi hynny, bydd yn bwysig cynnal gallu cynghorau i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

A yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi wyrddach yn eglur ac yn ddigon uchelgeisiol? Ydych chi'n credu bod digon o fuddsoddiad yn cael ei dargedu at fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a natur? A oes unrhyw fylchau sgiliau posibl y mae angen mynd i'r afael â nhw i gyflawni'r cynlluniau hyn?

13. Mae gan y llywodraeth amrywiaeth o gynlluniau lefel uchel uchelgeisiol, ond mae'r uchelgeisiau wedi'u cyfyngu gan y gallu ymarferol i gyflawni ac yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael. Wrth geisio adeiladu 'economi wyrddach' mae'n bwysig bod cynlluniau'r llywodraeth yn hysbysu'r holl weithgareddau economaidd ac yn mynd y tu hwnt i'r rheiny sydd eisoes yn cael eu hystyried yn 'wyrdd' (fel ynni adnewyddadwy a rheoli ynni). Mae hyn yn golygu sicrhau bod meysydd allweddol fel caffael a chyllid yn cefnogi asesiad cylch bywyd cyfan a rhoi gwerth ar leihau carbon a budd net ar gyfer bioamrywiaeth.

14. Mae hynny'n aml iawn yn gofyn am dalu mwy o flaen llaw ar gyfer buddion 'system gyfan' a ellir eu creu yn ystod y broses adeiladu, defnyddio ac ar ddiwedd oes. Mae gwella sgiliau i sefydlu 'meddylfryd gwyrdd' a dulliau 'natur-bositif' ar draws yr holl weithgareddau economaidd yr un mor bwysig â buddsoddi, er enghraifft, mewn ynni carbon isel, cerbydau trydan, cludiant cyhoeddus, digideiddio a gweithgareddau trwsio ac ailddefnyddio. Wrth gwrs, byddai mwy o gefnogaeth gan y llywodraeth ar gyfer buddsoddi yn hyn yn helpu, ond mae hefyd yn ymwneud â gwario arian yn ddoeth ar yr opsiynau mwyaf cynaliadwy (neu, weithiau, dewis cyrraedd nodau mewn ffyrdd arloesol yn hytrach na buddsoddi mewn rhywbeth newydd). Mae hynny'n rhoi signalau i'r farchnad ac yn gallu annog y sector preifat i fuddsoddi (mwy) mewn 'twf da'.

A yw Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r mecanweithiau ariannol sydd ar gael iddi o ran benthyca a threthiant yn effeithiol?

15. Hoffem petai gan y llywodraeth fwy o hyblygrwydd o ran defnyddio ei benthyciadau a'i chronfeydd wrth gefn, ac rydym wedi lleisio ein barn i Lywodraeth y DU yn uniongyrchol drwy ohebiaeth ac yn anuniongyrchol yn ein datganiadau i'r wasg ynglŷn â chyllideb Llywodraeth y DU ar 29 Hydref.

Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol eraill wrth graffu ar y Gyllideb. A oes gennych chi unrhyw sylwadau penodol o ran y meysydd a nodir isod

A oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol a chefnogi'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol?

16. Tra bod llawer o'r liferi yn nwylo Llywodraeth y DU, fel symiau'r budd-daliadau lles a'r uwchraddio blynyddol cysylltiedig, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod preswylwyr cymwys yn hawlio'r cymorth treth y cyngor

sy’n cael ei gynnig dan gynllun cenedlaethol. Does dim rhaid i gynghorau Cymru ailddylunio cynllun i gyd-fynd â’u cyllid, fodd bynnag, mae hyn yn arwain at gostau i’r llywodraeth leol gan fod cost y cynllun yn fwy na’r swm a ddyrennir drwy’r setliad.

17. Mae CLlLC yn dosbarthu cyllid grant Llywodraeth Cymru i gynghorau, i gefnogi diogelwch bwyd, partneriaethau bwyd cynaliadwy ac, yn fwy diweddar, ar gyfer canolfannau cymunedol / canolfannau clyd. Mae’r olaf hefyd yn galluogi defnyddio’r cyllid i gefnogi hygyrchedd drwy dalu am gludiant cymunedol i bobl allu cyrraedd y canolfannau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Er bod y cyllid hwn yn un tymor byr, mae hefyd yn ceisio gwella cynaliadwyedd diogelwch bwyd ac alinio â’r uchelgais cenedlaethol ar gyfer gwytnwch a dyfeisgarwch cymunedol.

<u>Sut y gallai'r gyllideb fynd i'r afael ymhellach ag anghydraddoldeb rhywedd mewn meysydd fel gofal iechyd, sgiliau a chyflogaeth?</u>

18. Pan fo cyllidebau’n brin gall atal a rôl y llywodraeth leol yn hynny gael ei anghofio. Mae’r llywodraeth leol wedi cymryd safle o eirioli dros ffocysu ar yr hirdymor, y rhaglen atal ac ar fynd i’r afael â tharddiad anghydraddoldeb o ran rhyw a chydraddoldeb yn fwy eang. Mae’r toriadau i gyllidebau’r llywodraeth leol dros y degawd a mwy diwethaf wedi cael effaith anghymesur ar fywydau, cyfleoedd ac ansawdd bywyd unigolion a chymunedau sydd dan anfantais ac yn dibynnu ar wasanaethau hanfodol, rhai statudol ac fel arall.

19. Mae’r llywodraeth leol wedi gwneud ei gorau glas i ddiogelu gwasanaethau dewisol sy’n cefnogi’r rhaglen atal ac mae llawer o’r rhain e.e. mynediad at ganolfannau hamdden, llyfrgelloedd, gwasanaethau ieuenctid, cefnogaeth i bobl sy’n camddefnyddio alcohol a chyffuriau, gwasanaethau sy’n atal trais yn erbyn merched a genethod, yn chwarae rhan allweddol i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau ac anghenion cymhleth o fewn teuluoedd a chymunedau sy’n amlweddog.

20. Dylai cyllid pellach i alluogi darpariaeth gwasanaeth mewn meysydd fel tai, addysg/ADY a gofal cymdeithasol i oedolion a phlant, ddarparu rhwyd ddiogelwch i’r bobl fwyaf diamddiffyn, sydd dros y blynyddoedd diwethaf wedi’i hymestyn fwyfwy. Mae’r gwasanaethau hyn wedi’u tanariannu a’u gordanysgrifio, ac mae’n rhaid i’r llywodraeth gydnabod y galw a sut mae’r pwysau ariannol parhaus yn effeithio ar wydnwch unigolion a chymunedau, yn enwedig y rheiny o grwpiau dan anfantais lle ceir mwy o groestoriadedd.

<u>A gaiff dull gweithredu Llywodraeth Cymru, o ran gwariant ataliol, ei gynrychioli o ran dyrannu adnoddau?</u>

21. Mae’r llywodraeth leol wedi cydnabod ers tro bod angen ailganolbwyntio ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i flaenoriaethu atal ac ymyrraeth

gynnar a hyrwyddo annibyniaeth a lles da. Dim ond drwy wneud hyn y byddwn yn lleihau ein dibyniaeth ar ymyriadau mwy dwys a chostus, fel defnyddio gwasanaethau acíwt ac ysbyty. Mae cynghorau yn cydnabod ac yn cefnogi uchelgais y llywodraeth i ganolbwyntio ar a buddsoddi mwy mewn gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar ond, fel cenedl, rydym yn aml wedi'i chael hi'n anodd gwireddu uchelgeisiau.

22. Mae angen buddsoddiad mwy mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn gwella canlyniadau personol, cynnal annibyniaeth a lleihau'r angen am wasanaethau mwy costus. Yn hanesyddol, mae atal bob amser wedi bod yng nghysgod yr heriau ariannu uniongyrchol mewn perthynas â gofal ysbyty a gofal acíwt ac ymateb i argyfyngau. Heb adnoddau sydd wedi'u clustnodi'n benodol ar gyfer atal, mae'n annhebygol y byddwn yn cyflawni'r newid radical sydd ei angen i droi'r gromlin ar faich cynyddol o anghydraddoldeb, salwch a chyflyrau hirdymor. Mae ar gynghorau eisiau gweithio gyda'r llywodraeth a'r GIG i fynegi beth mae hyn yn ei olygu i bobl a theuluoedd sydd angen cefnogaeth yn ein cymunedau.

<u>Sut y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadnoddau i ymdrin â rhestrau aros y GIG ar gyfer triniaethau GIG sydd wedi'u cynllunio ac nad ydynt yn rhai brys. A ydych chi'n credu bod gan Lywodraeth Cymru gynllun cadarn i fynd i'r afael â'r mater hwn?</u>

23. Ers y pandemig mae maint y rhestr aros a'r amser y mae'n rhaid i bobl aros am driniaethau wedi cynyddu'n aruthrol. Mae cyhoeddiadau diweddar o £50 miliwn wedi'u gwneud i dargedu'r amseroedd aros hiraf yng Nghymru, i gynyddu patrymau gweithio ar benwythnosau a gyda'r nos ac i sefydlu mwy o glinigau rhanbarthol yn ne-ddwyrain Cymru. Bydd y cyllid hwn ar gael i fyrddau iechyd ei wario ar gynlluniau i ddarparu mwy o driniaethau, mwy o brofion, mwy o apwyntiadau cleifion allanol, i weld mwy o bobl a, ble bynnag y bo angen, i ddefnyddio capasiti ysbyty preifat i ddod ag amseroedd aros hir i ben.

24. Mae cynghorau yn gwerthfawrogi bod lleihau amseroedd aros hir a sicrhau bod gan bobl fynediad amserol i ofal cynlluniedig yn flaenoriaeth i'r cyhoedd a'r llywodraeth hon. Fodd bynnag, mae'r dull o wneud y cyllid ychwanegol hwn ar gael i fyrddau iechyd yn unig yn colli cyfleoedd eraill. Mae gan ofal cymdeithasol rôl ganolog i wella'r dewisiadau gofal a chefnogaeth sydd ar gael i gleifion a datrys y rhwystrau o ran llwybrau gofal a gadael ysbytai, ynghyd â chynorthwyo i leihau'r amseroedd aros. Gall y Cynghorau weithio'n agos gyda'r GIG i wella hunanreolaeth o gyflyrau, canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, defnydd gwell o wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol, gwella mynediad at gefnogaeth gymunedol a gwybodaeth a chyngor, sydd i gyd yn wasanaethau sy'n atal pobl rhag mynd at y 'drws ffrynt' yn y lle cyntaf a lleihau pwysau ychwanegol ar y GIG.

A yw Llywodraeth Cymru’n darparu cefnogaeth ddigonol i'r sector cyhoeddus i'w alluogi i fod yn arloesol ac yn flaengar trwy bethau fel cynllunio'r gweithlu?

25. Mae’r llywodraeth yn darparu grant gwella blynyddol o hyd at £800,000 i CLlLC ar gyfer y llywodraeth leol fel rhan o’i hymrwymiad i welliannau dan arweiniad y sector. Caiff y grant ei ddefnyddio i gefnogi cydflaenoriaethau gwelliannau corfforaethol, yn seiliedig ar ymgysylltu â’r sector a chasglu gwybodaeth ehangach. Mae’r rhaglen dan arweiniad y sector yn annog arferion arloesol a dysgu o fewn y sector. Yn ystod 2023-24, defnyddiwyd rhan o’r grant i gomisiynu cefnogaeth a hyfforddiant cynllunio gweithlu arbenigol drwy’r LGA. Roedd hyn yn boblogaidd iawn, gydag 19 cyngor yn manteisio ar y cynnig.

26. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, mae CLlLC gyda chefnogaeth ariannol gan Gofal Cymdeithasol Cymru, wedi comisiynu’r LGA i ddarparu cefnogaeth cynllunio gweithlu wedi’i thargedu i adrannau gwasanaethau cymdeithasol cynghorau. Mae hyn yn cynnwys mynd i’r afael â heriau wrth recriwtio a chadw staff, a gwella data a gwybodaeth am y gweithlu. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i wasanaethau oedolion a phlant i helpu cynghorau i ddatblygu eu dulliau cynllunio gweithlu mewnol ac i roi’r dysgu hwn ar waith yn y sector gofal cymdeithasol ehangach yng Nghymru.

A fu digon o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn seilwaith sylfaenol y sector cyhoeddus?

27. Tra bod buddsoddi yn awgrymu gwariant cyfalaf, gellir dadlau mai gwariant refeniw ar gynnal a chadw sy’n hanfodol ar gyfer isadeiledd sector cyhoeddus sylfaenol. Yn hanesyddol, mae asedau newydd wedi’u creu gyda’r dybiaeth y bydd cyllidebau cynnal a chadw presennol yn ysgwyddo’r costau parhaus. Fodd bynnag, mae ar briffyrdd, isadeiledd (e.e. pontydd a goleuadau stryd), draeniau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd angen gwaith cynnal a chadw parhaus i’w hatal rhag dirywio dros amser. Gyda’r posibilrwydd o fwy o dywydd eithafol, a phwysau parhaus ar gyllidebau refeniw cynghorau, mae’r risgiau sy’n gysylltiedig ag isadeiledd o’r fath yn cynyddu o ran tebygolrwydd ac effaith.

28. Felly dylai cynnal a chadw asedau presennol fod yn flaenoriaeth uchel. Fel arall yr unig ddewis yw eu hamnewid yn llwyr (am gost ddrutach). Mae hynny’n berthnasol yn uniongyrchol (cost cyfalaf isadeiledd newydd) ac yn anuniongyrchol (e.e. o ran delio â difrod llifogydd, costau economaidd gwyriadau hir ar ôl difrod i bont).

Sut y dylai'r Gyllideb gefnogi pobl ifanc?

29. O ran addysg, dylai’r gyllideb gefnogi awdurdodau lleol i ddarparu digon o adnoddau i gefnogi dysgwyr a’u teuluoedd, i ddarparu ymyriadau yn ôl yr angen

ac i wrthbwyso costau cynyddol mewn perthynas â'r galw am wasanaethau a chostau darparu cynyddol.

30. Yn benodol, gyda'r galw cynyddol ar ysgolion ac awdurdodau lleol o ran ymddygiad, presenoldeb ac iechyd meddwl / lles, mae'n bwysig bod gan awdurdodau lleol yr adnoddau i gefnogi plant a'u teuluoedd i sicrhau eu bod yn gallu ymgysylltu ag addysg, derbyn addysg addas a chael eu diogelu rhag niwed. Mae hyn hefyd yn wir o ran cefnogi'r niferoedd cynyddol o blant gydag ADY ac anghenion mwy cymhleth y boblogaeth honno – yn y blynyddoedd cynnar yn ogystal ag ysgolion.

31. Mae rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith a pharatoi ar gyfer newidiadau i gymwysterau, ochr yn ochr â diwygiadau arwyddocaol eraill, hefyd yn cynyddu'r llwyth gwaith a'r pwysau ariannol ar y gweithlu addysg a'r awdurdodau lleol. Dylai diwygiadau, yn cynnwys canlyniadau anfwriadol ar lwyth gwaith, gael eu hariannu'n llwyr i wneud y gorau o'r gefnogaeth a gaiff pobl ifanc.

32. Mae awdurdodau lleol yn gweld costau cynyddol mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol yn ogystal â phroblemau o ran argaeledd cyflenwyr a galw cynyddol mewn perthynas ag ADY a chludiant i'r ysgol, fel yr angen am dywyswyr / tacsis. Mae angen mwy o gyllid yn y maes hwn i gwrdd â'r cyfrifoldebau statudol, yn ogystal â sicrhau presenoldeb ac ymgysylltiad â gweithgareddau ehangach yr ysgol.

33. Ers 2010-11, mae incwm y sector gwaith ieuenctid wedi lleihau 26% (adroddiad 'Cam 2: adolygu cyllid gwaith ieuenctid' Llywodraeth Cymru). Yn y cyfnod hwn mae presenoldeb a chyrhaeddiad wedi dirywio, ac mae gwaharddiadau a throseddau ieuenctid wedi cynyddu. Mae pwysau ariannol ar waith ieuenctid hefyd wedi arwain at werthu adeiladau/cyfleusterau. Mae gwaith ieuenctid bellach yn fwy dibynnol ar gyllid allanol (tymor byr) gan fod y cyllid craidd wedi'i leihau. Mae rhai cynghorau yn adrodd, oherwydd gostyngiad yn nifer yr aelodau o staff, y byddan tyn ei chael hi'n anodd hawlio/gwario grantiau penodol oherwydd diffyg capasiti craidd.

<u>A yw'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau'r trydydd sector, sy'n wynebu galw cynyddol am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig, yn ddigonol?</u>

34. Gweithiodd awdurdodau lleol yn agos iawn gyda'r sector gwirfoddol drwy gydol y pandemig. Roedd adnoddau cymunedol a'r sector gwirfoddol yn elfen anhepgor o'r gefnogaeth genedlaethol a lleol i bobl a oedd yn gwarchod eu hunain neu angen hunan-ynysu, gan gefnogi cynghorau fel y prif bwynt cyswllt yn aml iawn. Mae arolygon y llywodraeth ym mis Ebrill a mis Gorffennaf 2020 wedi amlygu bod ymateb cyflym cynghorau, sefydliadau gwirfoddol, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddarparu cefnogaeth estynedig ar gyfer y bobl fwyaf

diamddiffyn yn eu hardaloedd wedi dangos effeithiolrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r galw am wasanaethau a chymhlethdod anghenion defnyddwyr gwasanaeth wedi cynyddu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac wedi'u gwaethygu oherwydd yr argyfwng costau byw parhaus.

35. Mae'r sector gwirfoddol wedi croesawu rhaglenni ariannu Llywodraeth Cymru fel Cronfa Adfer y Sector Gwirfoddol a Chronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, a ddosberthir yn bennaf gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Fodd bynnag, ers pandemig COVID-19, mae gostyngiad wedi bod yn y cyllid a gynigir i'r sector gwirfoddol. Bydd toriadau dilynol ar draws cyllid bron pob portffolio yn parhau i effeithio'n negyddol ar gefnogaeth ataliol a bydd yn gadael y sector mewn sefyllfa ariannol ansicr. Dylid ystyried cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru i'r sector i gynnal y momentwm o ran ymateb y gymuned yn ystod y pandemig, yn cynnwys ymestyn eu gweithgareddau, cynnal sefydlogrwydd mewn ardaloedd a pharhau â'r partneriaethau llwyddiannus a grëwyd yn ystod y pandemig.

<u>Beth yw'r cyfleoedd allweddol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi i gefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?</u>

36. Mae gan Gymru gyfleoedd clir o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gyda phosibiliadau egni llanw, arfordirol, gwynt (ar y môr ac ar y tir), hydro a solar. Mae buddsoddi yn rhain ac yn natblygiad cadwyni cyflenwi cysylltiedig, ynghyd â systemau ynni lleol clyfar a storfeydd, yn helpu i greu cyfleoedd mewn economïau lleol. Mae hefyd yn helpu gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol drwy ddarparu ffynonellau ynni hirdymor, carbon isel a diogel. Wrth i'r grid gael ei ddatgarboneiddio bydd gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio mewn ffordd fwy carbon isel, yn unol â thema 'ffyniannus' y Ddeddf Llesiant.

37. Yn y pen draw mae'n rhaid i bob buddsoddiad, beth bynnag ei natur, gael ei ddarparu ar lefel leol. Felly mae gan y llywodraeth leol rôl a budd hanfodol i sicrhau bod pethau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Pan fo cynghorau yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch buddsoddi o'r cychwyn cyntaf, maent mewn lle da i helpu i'w siapio nhw i sicrhau integreiddiad, gwneud y gorau o fuddion cymunedol hirdymor ac atal problemau posibl rhag codi neu waethygu. Fe ellir gwneud hynny drwy e.e. nodi cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau, cydweithio gyda sefydliadau partner a chymunedau sy'n cael eu heffeithio, neu drwy gael mewnbwn adrannau cynllunio, amgylchedd a phriffyrdd a chludiant lleol.

38. Mae yna fanteision canlyniadol, anuniongyrchol i'r sector cyhoeddus ynghlwm wrth economi sy'n tyfu (sydd ar y cyfan yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau).

ATODIAD I

**Is-grŵp Cyllid** **Eitem 01**

23 Hydref 2024

## RHAGOLYGON ARIANNOL

### Pwrpas

39. Mae’r papur hwn yn darparu’r dadansoddiad diweddaraf o bwysau gwariant dros y tair blynedd nesaf yn seiliedig ar gynlluniau ariannol tymor canolig cynghorau. Mae hyn yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg llawn o gynghorau a gwasanaethau tân ac achub a gynhaliwyd yn ystod mis Gorffennaf / Awst gyda chymorth Cymdeithas Trysoryddion Cymru (SWT). Ceir crynodeb o’r canlyniadau yn Atodiad I.


40. Mae'r papur hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y sefyllfa yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2024-25 a grynhoir yn Atodiad II. Mae hyn yn adlewyrchu y bydd gofyn am gyfuniad o doriadau, arbedion effeithlonrwydd, a defnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli cyllidebau. Mae’r astudiaethau gwytnwch ariannol rydym wedi’u gweld gan Archwilio Cymru, wedi ein harwain at y casgliad y byddai sawl cyngor yn agos at gwymp ariannol os nad yw’r rhagolygon ariannu yn gwella.

### Crynodeb

41. Mae’r pwysau a amcangyfrifir ar gyfer y flwyddyn nesaf £38 miliwn yn uwch na feddyliwyd yn wreiddiol. Wrth gyfnewid gohebiaethau gyda Llywodraeth Cymru dros yr haf, fe wnaethom nodi amcangyfrifon o £521 miliwn ar gyfer 2025-26 ac mae’r arolwg yn cadarnhau bod hyn yn £559 miliwn. Byddai hyn yn gofyn am gynnydd o ychydig dros 7% mewn gwariant refeniw net[3]. Mae hyn yn gostwng i £454 miliwn yn 2026-27 ac yn cynyddu ychydig i £464 miliwn yn 2027-28.

[3] Cyfanswm y gyllideb gwariant refeniw net ar gyfer 2024-25 yw £7.762 biliwn (Ffynhonnell: Ffurflenni Cyfrif Refeniw Llywodraeth Cymru)

**Ffigur 1:** Pwysau cyllidebol yn ôl gwasanaeth, 2025-26 i 2027-28, £000oedd




Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2024

42. Mae'r pwysau y flwyddyn nesaf tua 2 waith y pwysau y byddem fel arfer yn disgwyl ei weld ac mae ffigur 1 uchod yn dangos sut mae'r pwysau hyn wedi'u gwasgaru ar draws y meysydd gwasanaeth eang. Mae gofal cymdeithasol yn cyfrif am 40% (£223 miliwn) o bwysau yn 2025-26, mae ysgolion yn cyfrif am 22% (£120 miliwn) o'r pwysau ac mae gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol yn cyfrif am y 40% sy'n weddill (£224 miliwn). Mae'r dadansoddiad llawn i'w weld yn Atodiad I. Gyda'i gilydd, mae'r pwysau sy'n cronni yn y system yn dod i gyfanswm o £1.478 biliwn, a'r bwlch yn y gyllideb sy'n deillio o hynny, yn golygu bod y rhagolygon yn hynod o heriol a bydd yr opsiynau ar gyfer gwasanaethau lleol yn annymunol.

43. Bydd mynd i'r afael â phwysau o £559 miliwn, heb gyllid ychwanegol, yn gofyn am gymysgedd o gynnydd yn nhreth y cyngor, toriadau i wasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd. Mae'r pwysau gyfwerth â chynnydd o 26% yn nhreth y cyngor, neu golli bron i 14,000 o swyddi[4].

44. Mae'n dod yn amlwg bod pwysau a ragwelir yn ystod y flwyddyn yn 2024-25 sydd yn fwy na blynyddoedd blaenorol, sy'n orwariant amcanol o £238 miliwn. Nodir hyn yn fanylach yn Atodiad II. Mewn rhai awdurdodau, mae'r gorwario rhagamcanol hwn wedi mynd yn ddifrifol dros ben gydag ystod o fesurau'n cael eu rhoi ar waith i fantoli cyllidebau. O ran dadansoddiad gwasanaeth, gofal cymdeithasol yw 45% o'r gorwariant, neu £106 miliwn, gyda gofal plant cost uchel a galw cynyddol am ofal cymdeithasol oedolion yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r costau afreolus. Mae addysg ac ysgolion yn cyfrif am tua 39%, neu £92 miliwn o gyfanswm y gorwariant, sydd wedi dyblu o'r flwyddyn ddiwethaf. Mae

---

[4] Gweler tabl 3 yn Natganiad Ystadegol 2024-25 Lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ([Lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, 2021-22 (llyw.cymru)]), mae cyfanswm incwm treth y cyngor yn £2.148 biliwn ar hyn o bryd. Amcangyfrifir mai cost swydd gyffredin yw £40,000 (yn cynnwys argostau).

gwasanaethau eraill y cyngor yn cyfrif am £63 miliwn sydd ychydig yn llai na 16% o'r gorwariant cyffredinol.

45. Ffordd arall o edrych ar hyn yw bod £83 miliwn neu ychydig dros draean o'r gorwariant a ragwelir yn 2024-25, yn deillio o chwyddiant (gan gynnwys chwyddiant cyflog) a chostau comisiynu, sy'n uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol pan osodwyd cyllidebau yn gynnar yn 2024. Fodd bynnag, mae llawer o'r pwysau yn ystod y flwyddyn yn deillio o alw nas rhagwelwyd, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, ac mae'n cyfrif am 48% neu £114 miliwn.

46. Heb gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ni ellir gorbwysleisio'r risg i wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Y bwlch yn y gyllideb flynyddol gyfanredol ym mhob un o'r 3 blynedd nesaf yw £451 miliwn, £347 miliwn a £357 miliwn yn y cyfnod yn arwain at 2027-28. Gallai cyfanswm y bwlch ariannu cronnol fod yn £1.155 biliwn. Bydd rhywfaint o'r bwlch yn cael ei lenwi trwy arbedion effeithlonrwydd a mesurau eraill ond o ystyried maint yr her, mae llawer o gynghorau yn paratoi am doriadau gwasanaeth ar raddfa fawr a cholli swyddi a allai arwain at filoedd o bunnoedd.

47. Yn Lloegr, nid yw'n syndod bod cynaliadwyedd ariannol rhai cynghorau yn cael ei brofi'n arw. Mae hyn yn cael ei ddangos yn glir drwy'r ffaith bod 18 cyngor yn ddibynnol ar Gefnogaeth Ariannol Arbennig gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol presennol. Yn ôl y Gymdeithas Llywodraeth Leol mae hyn yn ddigynsail[5] ac er bod y rhesymau gwaelodol dros y gefnogaeth hon yn amrywio ar draws y cynghorau hyn, mae graddfa'r ymyrraeth hon gan y Llywodraeth yn dangos bod y risg o fethiant ariannol o bosibl yn dod yn systemig. Yn amlwg, mae'r sefyllfa hon, sydd wedi cynnwys dinistrio gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar allweddol megis llyfrgelloedd a gwasanaethau Chwarae ac Ieuenctid, yn un mae'r teulu llywodraeth leol yng Nghymru yn awyddus i'w hosgoi.

[5] Byddai toriadau ariannol pellach i gynghorau yn drychinebus; mae angen diwygiadau a chyllid ar frys | Cymdeithas Llywodraeth Leol


## Trosolwg

48. Mae'r broses gosod cyllideb dros yr hydref a'r Adolygiad o Wariant 2025 yn cael eu cynnal yng nghyd-destun amodau ariannol ac economaidd heriol. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth newydd y DU wedi cyflwyno rhaglen uchelgeisiol i ddiwygio ac adfer elfennau allweddol o wasanaethau cyhoeddus. Nid yn unig yw ein cyflwyniad wedi'i anelu at wella bywydau'r rhai hynny yn ein cymunedau ond hefyd at helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei rhaglen yng nghyd-destun yr heriau ariannol hyn. Mae'r 22 Cyngor, y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Parciau Cenedlaethol yn allweddol i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

49. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu'r ffaith bod cynghorau dan straen ariannol difrifol. Mae chwyddiant, pwysau ar gyflogau a galw cynyddol a chymhlethdod yr anghenion yn golygu y bydd cynghorau'n wynebu bwlch ariannol sylweddol dros y 3 blynedd nesaf. Mae angen gweld hyn yng nghyd-destun y toriadau o £3 biliwn a amcangyfrifir a'r arbedion effeithlonrwydd mae cynghorau wedi'u gwneud o ran gwariant gwasanaeth ers 2009-10. Mae hyn fwy neu lai'n gyfwerth â chost bresennol y system gofal cymdeithasol ar draws Cymru. Pe bai gwariant gwasanaeth y cynghorau wedi cynyddu yn unol â chwyddiant, twf cyflogau, demograffeg a galw ers 2009-10, byddai wedi bod 32 y cant yn uwch yn 2024-25 nag ar ddechrau'r cyfnod. Mae cynghorau wedi gorfod ysgwyddo'r pwysau mawr hyn drwy doriadau i wasanaethau neu arbedion effeithlonrwydd. Mae llawer o wasanaethau dewisol wedi cael eu gwahanu.

50. Prif amcan arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru yw nodi a chrynhoi'r wybodaeth sydd yn y cynlluniau ariannol tymor canolig. Mae ffigur 2 isod yn crynhoi pwysau cyllideb dros 3 blynedd hyd at 2027-28 o dan 4 prif bennawd: chwyddiant cyflogau, chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau, costau comisiynu (mewn gofal cymdeithasol) a galw.

**Ffigur 2:** Pwysau Cyllideb yn ôl math, 2025-26, 2026-27 a 2027-28, £000oedd




Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2024

51. Mae galw yn amlwg yn elfen sylweddol o'r pwysau yn y 3 blynedd, ac yn cyfrif am draen o gyfanswm y pwysau yn 2025-26, sef £242 miliwn. Mae'n disgyn i oddeutu £149 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf ac yna'n disgyn ychydig eto i £144 miliwn yn y flwyddyn wedyn.

52. Mae costau chwyddiant sylfaenol yn gostau anochel sy'n rhaid eu talu er mwyn gallu aros yn yr unfan. Mae'r rhain yn cyfrif am ychydig dros £317 miliwn yn 2025-26 ac yn disgyn i oddeutu £305 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf, cyn dychwelyd i £320 miliwn yn y flwyddyn wedyn. Mae'r rhan fwyaf o'r pwysau hwn yn cael ei lywio gan dâl.

53. Yn y flwyddyn ariannol bresennol, fe wnaeth carfan cyflogwyr y Cyd-cyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wneud cynnig llawn a therfynol i undebau llafur ym mis Mai gan gynnig o fis Ebrill 2024, bod cynnydd o £1,290 (pro-rata i weithwyr rhan amser) yn cael ei dalu fel ychwanegiad parhaol wedi'i gydgrynhoi ar yr holl bwyntiau cyflog Cyd-gyngor Cenedlaethol o bwynt 2 i 43 yn cynnwys y pwyntiau hynny (cyfwerth â 5.77 y cant ar y pwynt cyflog isaf, a 2.50 y cant ar y pwynt cyflog uchaf ac uwchben hynny).

54. Mae'r cynnig hwn yn golygu y bydd gweithiwr ar y pwynt cyflog isaf ym mis Ebrill 2021 (a oedd ar y pryd yn ennill cyflog o £18,333) wedi cael codiad cyflog o 29% dros 3 blynedd i fis Ebrill 2024. I weithiwr ar ganol y raddfa gyflog (pwynt cyflog 22), bydd eu cyflog wedi cynyddu 19% dros yr un cyfnod a bydd cyflog y rhai hynny ar bwynt cyflog 43, ar frig y raddfa gyflog, wedi cynyddu 11%. Disgwylir y bydd y cynnig, os caiff ei dderbyn, yn cynyddu'r bil cyflogau o 4.5% yng Nghymru.

55. Yn dilyn y cyhoeddiad ar 29 Gorffennaf ynghylch dyfarniadau cyflog wedi'u hariannu i rannau eraill o'r sector cyhoeddus, bu i undebau llafur y Cyd-gyngor

Cenedlaethol geisio cynnig cyflog newydd gan y Cyflogwyr Cenedlaethol a bwysleisiodd eto bod y cynnig a gyflwynwyd ym mis Mai yn gynnig llawn a therfynol oherwydd y byddai'n "…anodd ei ariannu mewn sawl awdurdod lleol a byddai unrhyw beth tu hwnt iddo yn gosod mwy o awdurdodau tu hwnt eu lefel fforddiadwyedd." Fodd bynnag, wrth gytuno i ailddatgan y cynnig, cytunodd y Cyflogwyr Cenedlaethol y dylid gofyn i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (ynghyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Gogledd Iwerddon) ystyried lobïo'r llywodraeth ganolog (a llywodraethau datganoledig am gyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog yn y dyfodol. Cyfarfu'r Cyflogwyr Cenedlaethol ar 12 Medi 2024 ac maent yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

56. Mae gweddill y papur hwn yn nodi ein 5 maes blaenoriaeth a nodwyd yn y llythyr diweddar at y Prif Weinidog.

- Maes Blaenoriaeth 1 - Ysgolion ac Addysg
- Maes Blaenoriaeth 2 - Gofal Cymdeithasol ac Atal
- Maes Blaenoriaeth 3 – Tai a Digartrefedd
- Maes Blaenoriaeth 4 - Datblygu Economaidd Rhanbarthol a Lleol
- Maes Blaenoriaeth 5 - Cyfalaf a Buddsoddi

Maes Blaenoriaeth 1 - Ysgolion ac Addysg

57. Mae cynghorau wedi adrodd bod pwysau ychwanegol o £92 miliwn yn ystod y flwyddyn ar gyllidebau ysgolion ar gyfer 2024-25, sydd dros ddwywaith yr hyn a adroddwyd yn yr arolwg pwysau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Roedd hwn yn dangos pwysau o £41 miliwn yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24. Yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae 30% o'r gorwariant oherwydd pwysau cyflog. Er bod hyn yn bryderus, yr hyn sy'n gwaethygu'r sefyllfa yw'r ffaith fod cronfeydd wrth gefn wedi lleihau, felly nid ydynt yn parhau i fod y dewis yr oeddent mewn blynyddoedd blaenorol. Trafodir hyn yn fanylach isod. Mae'r pwysau mae ysgolion yn ei wynebu yn y dyfodol yn ddifrifol, amcangyfrifir pwysau o £120 miliwn yn 2025-26, gyda £111 miliwn a £113 miliwn arall yn 2026-27 a 2027-28 yn y drefn honno. Mae cyflog yn cyfrif am oddeutu 80% o'r pwysau ar ysgolion ym mhob un o'r blynyddoedd.

58. Un thema a oedd yn dod i'r amlwg dro ar ôl tro yn yr ymatebion i'r arolwg oedd bod cyllidebau ysgolion eisoes mewn sefyllfa fregus. Dangosir llymder y sefyllfa yn yr ymateb isod:

*"Mae ysgolion wedi mynd i ddibynnu'n fwyfwy ar eu cronfeydd wrth gefn ond mae'r rhain wedi lleihau o £6.7 miliwn yn 2022-23 i lai na £0.9 miliwn (Mawrth 2024). Lle mae ysgolion wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn i dalu costau chwyddiant cynyddol mewn blynyddoedd ariannol blaenorol, nid yw hyn bellach yn opsiwn. Rhaid cynnwys y pwysau o £2.3 miliwn mewn blynyddoedd blaenorol fel sail i gyllidebau ysgolion, yn ogystal â'r pwysau a ddengys. Heb gyllid pellach i gyllidebau dirprwyedig ysgolion neu ostyngiadau sylweddol o ran gwariant, bydd yr amcanestyniadau ar gyfer y 3 blynedd nesaf yn dangos yr ysgolion, gyda'i gilydd, yn mynd i ddiffyg o dros £15 miliwn."*

59. Yn ogystal â'r straen refeniw, roedd un ymateb hefyd yn trafod y pwysau cyfalaf penodol ar y gyllideb addysg:

*"Mae buddsoddiad cyffredinol mewn adeiladau ysgolion wedi'i effeithio gan gyllid blynyddoedd blaenorol, i leihau nifer y problemau cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, cyflawni ein hymrwymiadau trawsnewid cyfalaf presennol a buddsoddi i gyflawni sero net ar draws yr ystâd ysgolion, rydym wedi amcangyfrif lefelau buddsoddi o fwy na £400 miliwn. Byddai benthyca i gefnogi'r lefel hon o fuddsoddiad yn galw am gyfraniadau refeniw blynyddol dros £25 miliwn, lefelau ymhell tu hwnt i'r hyn sy'n fforddiadwy".*

60. Er bod cynghorau wedi bod yn gweithio'n galed i leihau costau drwy, er enghraifft, caffael gwell, mae cynghorau'n cefnogi ysgolion gyda threfniadau cadarn i fonitro cyllideb yn ystod y flwyddyn a threfniadau cynllunio ariannol cynaliadwy dros y tymor canolig.

61. Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn mynegi ofn mawr ynghylch y llwybr cyfredol gyda dros hanner yr ymatebwyr yn pwysleisio cyfradd waredu'r cronfeydd wrth gefn.

Amlygodd un ymateb fod "Cyllidebau ysgolion dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael eu gosod ar lefel annigonol i dalu am bwysau chwyddiannol. Mae ysgolion wedi ariannu'r gost hon drwy falansau ysgolion yn bennaf, ond mae'r balansau hyn gostwng yn gyflym." Mae sylwadau yn ymwneud â gostyngiadau yng nghronfeydd wrth gefn yn cynnwys:

- Defnyddiodd ysgolion £5.8 miliwn o'u cronfeydd wrth gefn y llynedd [86.7%] ac roedd balans net cronfeydd wrth gefn ysgolion yn £0.891 miliwn ar 31 Mawrth 2024. Mae 20 o'n hysgolion bellach mewn diffyg o ran balansau eu cronfeydd wrth gefn, cyfanswm o £5.7 miliwn.
- Rydym yn rhagweld y bydd cronfeydd wrth gefn ysgolion yn parhau i leihau ar raddfa sylweddol oherwydd bod angen gwneud arbedion yn y gyllideb. Nid yw hon yn sefyllfa gynaliadwy, wrth i wariant ysgolion barhau i fod yn uwch na'r incwm a geir, mae tebygolrwydd y bydd balansau wrth gefn ysgolion yn fuan mewn sefyllfa diffyg net.
- Mae'r rhagolwg cyntaf yn seiliedig ar ffurflenni cyllideb ysgolion yn nodi defnydd o £11 miliwn, (mae'r balans yn £5 miliwn ar hyn o bryd, felly byddai balans diffyg o £6 miliwn ym mis Mawrth 2025 pe bai hyn yn digwydd)
- Defnydd sylweddol o gronfeydd wrth gefn ysgolion yn 2024-25, £7.6 miliwn. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach mewn sefyllfa ddiffyg o ran eu cronfeydd wrth gefn, gyda chynlluniau adfer ar waith.
- Mae cyllidebau ysgolion yn rhagamcanu diffyg cyffredinol o £5 miliwn ar ddiwedd 2024-25, sy'n anghynaladwy ac mae ysgolion yn dweud nad oes modd iddynt wneud toriadau pellach a darparu'r cwricwlwm / bodloni cymarebau staffio statudol neu ddiogel. Mae'n rhaid i bensiynau a dyfarniadau cyflog gael eu cyllido'n llawn.

62. Cafwyd llawer o sylwadau ynghylch sut y bydd angen adolygu cynaliadwyedd ysgolion bach wrth i bwysau ariannol barhau. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y gallai cost gynyddol cludiant i ysgolion cyfagos negyddu'r arbedion a wneir yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Nodwyd hefyd bod y terfynau amser maith hefyd yn rhwystr hyd yn oed pan fo'r proffil yn dangos bod yr arbedion net wedi rhoi ystyriaeth i gost gynyddol cludiant. Nododd un awdurdod bod adolygiad o'i ddarpariaeth chweched dosbarth ar y gweill ac y byddai cynaliadwyedd ariannol y ddarpariaeth bresennol yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

63. Nid oes unrhyw amheuaeth bod adrannau addysg ac ysgolion yn wynebu dewisiadau anodd, amhoblogaidd. Meddai un cyfranogwr, "Mae gofyn i ysgolion ddarparu addysg i'r un faint o ddisgyblion yn fwy anodd nag erioed oherwydd yr unig ddewis gwirioneddol sydd ar gael yw lleihau nifer yr athrawon a chynyddu maint y dosbarthiadau." Mae un arall yn trafod yr effaith negyddol debygol ar genedlaethau'r dyfodol, gan nodi, "bydd ysgolion yn methu â bodloni gofynion y cwricwlwm heb fynd i ddiffyg ariannol, bydd yr hyn a gynigir i ddisgyblion yn fwy cyfyng a bydd hyn oll yn amharu ar lefelau cyrhaeddiad".

64. Mae achosion y pwysau ariannol yn amrywio, ond mae’r themâu cyffredin o’r ymatebion a gafwyd yn cynnwys:
    - “Mae pob ysgol yn gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol a chymhlethdod yr anghenion hynny.”
    - Oherwydd Diwygio ADY, mae cynnydd wedi bod o ran nifer y disgyblion â Datganiad mewn ysgolion prif ffrwd gydag oriau’n gysylltiedig â’u Datganiad.
    - Mae penaethiaid yn nodi cynnydd sylweddol mewn galw o ran diwallu anghenion dysgu ychwanegol, ynghyd â’r twf o dan y system CDU.
    - O fewn anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae galw a thwf cynyddol ar draws pob ystod oedran. Mae data blynyddoedd cynnar yn rhagweld bydd y duedd hon yn parhau. Yn benodol, mae cynnydd cenedlaethol mewn niwroamrywiaeth. Mae hyn, ynghyd â chyfrifoldeb ar draws ystod oedran estynedig yn arwain at ofynion cynyddol o ran adnoddau gan greu pwysau o oddeutu £2 filiwn a’r angen i gynllunio mwy o leoedd.
    - Grantiau sydd wedi bod yn arian gwastad (o’u cymharu â thâl athrawon ac NJC digid dwbl)
    - Mae swyddi sy’n cyflawni gofynion statudol wedi’u hariannu gan grant, mae costau’n cynyddu a’r grant yn aros yn sefydlog gan arwain at bwysau ariannol pellach.
    - Mae’r angen am leoedd arbenigol ôl-16 wedi arwain at leoedd ysgol ychwanegol o fewn a thu hwnt i’r awdurdod lleol, gyda’r cyntaf yn cyfyngu’r cwantwm cyffredinol ar gael i’r holl ysgolion a’r ail yn rhoi rhagor o bwysau ar gyllidebau annigonol.
    - Mae galw ar draws ysgolion yn parhau i fod yn benodol uchel mewn perthynas ag ymddygiad disgyblion, lefelau gwaharddiadau a phresenoldeb.
    - Mae’r galw am Gludiant o’r Cartref i’r Ysgol a phwysau chwyddiant yn gweld cynnydd o un flwyddyn i’r llall dros £1.5 miliwn, yn enwedig mewn perthynas ag ADY.

65. Yn amlwg, bydd pwysau o’r fath yn cael effeithiau negyddol ar y genhedlaeth nesaf, gyda phryderon yn amlygu “Y risg yw er mwyn cynnal cyllideb gytbwys bydd gallu’r [Adran] Addysg i roi cefnogaeth wedi’i thargedu i ysgolion ar gyfer ymyriadau ADY penodol yn cael ei dynnu’n ôl”. Nodwyd mewn ymateb arall, “y risg i ysgolion fydd colli rolau staff addysgu a chefnogi. Bydd hyn yn cynnwys nifer annigonol o staff cefnogi i lenwi’r swyddi ADY angenrheidiol”, a dywedodd un arall yn syml, “Mae’n anochel y bydd arbedion effeithlonrwydd yn ymwneud â staffio oherwydd bod dros 85% o gyllideb ysgol yn gysylltiedig â staffio”.

66. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn sôn am y pwysau cynyddol ar ADY. Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod costau [6]wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, ymhell tu hwnt i lefelau hanesyddol. O 2007-08 i 2018-19, roedd gwariant

[6] Gweler Ffigur 2 yn Gwariant sydd wedi'i Gyllidebu ar gyfer Darpariaeth Anghenion Addysgu Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol (AAA/ADY): 2024-25 (llyw.cymru)

yn amrywio rhwng £300 miliwn a £400 miliwn. Fe aeth dros £300 miliwn yn 2019-20 a'r gwariant a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol yw £592 miliwn. Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg wedi'i nodi fel y prif reswm dros y cynnydd mewn costau.

67. Mae'r Bil Diwygio yn gosod disgwyliadau / gofynion penodol ar y Bwrdd Iechyd i gefnogi mynediad at ddarpariaeth addysg briodol drwy rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig. Fodd bynnag, mae hyn yn gymhleth ac, ar hyn o bryd, nid oes atebolrwydd neu ofyniad clir o ran sut mae'r holl wasanaethau sy'n gyfrifol am alluogi mynediad at ddarpariaeth addysg yn deg a chyfartal, yn cyfrannu at gost y ddarpariaeth. Yr awdurdod lleol sy'n ysgwyddo baich y gost ar hyn o bryd.

68. Mae gan bob asiantaeth ran hanfodol i'w chwarae wrth adnabod ADY a darparu gwybodaeth i adnabod ADY. Mae gan gyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) rôl uniongyrchol wrth ddarparu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) mewn achosion pan fo DDdY yn wasanaeth neu driniaeth berthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc. Mae dyfarniadau tribiwnlys a diffyg eglurder o amgylch gallu byrddau iechyd lleol i fodloni eu gofynion, yn rhoi beichiau ariannol ychwanegol ac anrhagweladwy ar awdurdodau lleol a gall hyn dynnu cyllid o ystafelloedd dosbarth.

69. Dylid nodi hefyd, er mor ddifrifol yw'r amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol, fe allai'r gwirionedd fod yn waeth fyth, gyda sawl ymateb yn nodi bod y ffigyrau a nodwyd yn tybio bydd y cynnydd yng nghyfraniad pensiwn athrawon yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Maes Blaenoriaeth 2 - Gofal Cymdeithasol ac Atal

70. Mae Cynghorau'n parhau i fod yn hynod bryderus am y pwysau presennol sy'n wynebu gofal cymdeithasol. Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos effaith barhaus y pwysau cynyddol o ran demograffeg, costau byw, y gweithlu a chwyddiant sy'n wynebu pob rhan o'r system gofal cymdeithasol, yn ogystal ag effaith cyfrifoldebau ychwanegol a deddfwriaeth heb lefelau priodol o adnoddau . Mae risgiau ychwanegol hefyd, megis y rhai hynny'n ymwneud â chaffael system newydd ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a allai arwain at orfod talu costau ychwanegol. Mae galw cynyddol am wasanaethau a chymhlethdod cynyddol anghenion gofal a chymorth yn ychwanegu at y pwysau a'r pryderon hyn. Yr effaith yw nad yw cyllidebau'n ymestyn mor bell ag yr oeddent yn arfer gwneud; mae gofalwyr di-dâl a theuluoedd yn wynebu mwy o straen, ac mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn heriau enfawr.

71. Mae arolwg SWT yn dangos y pwysau sylweddol yn ystod y flwyddyn a wynebir ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Ar hyn o bryd, mae'r gorwariant a ragwelir ar gyfer 2024-25 yn £106 miliwn, sydd oddeutu 4.2% o'r gyllideb gwariant refeniw net[7]. Mae hyn yn debyg i'r gorwariant o £107 miliwn a ragwelwyd yr adeg yma'r lynedd ar gyfer 2023-24.

72. Yn ddieithriad, bydd cynghorau wedi cymryd camau i bontio bylchau yng ngofal cymdeithasol a meysydd gwasanaeth eraill oherwydd byddai sefyllfa anghytbwys yn anghyfreithlon. O gymharu, amododd yr Archwilydd Cyffredinol ei farn yn ddiweddar ar 'reoleidd-dra' ar gyfer y 7 Bwrdd GIG, oherwydd eu bod wedi methu â bodloni eu dyletswydd statudol i gwrdd â chostau dros gyfnod o 3 blynedd. Mae'r gorwariant cronnus dros 3 blynedd ar draws y GIG wedi cynyddu o £248 miliwn yn 2022-23 i £385 miliwn yn 2023-24, o gymharu â chynghorau sy'n gorfod sicrhau cyllidebau cytbwys ar ddiwedd blwyddyn.[8]

73. I gynghorau, mae'r heriau ariannol sylweddol sydd eisoes yn cael eu profi yn parhau i wasanaethau gofal cymdeithasol yn 2025-26 a thu hwnt. Yn y flwyddyn ariannol nesaf mae pwysau o £223 miliwn sy'n cynrychioli cynnydd o 9% yn y cyllidebau presennol. Mae costau comisiynu, chwyddiant cyflogau a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau yn cyfrif am £130 miliwn o'r pwysau, ac mae'r gweddill o ganlyniad i alw sy'n cyfrif am £93 miliwn. Mae pwysau ychwanegol o £196 miliwn yn 2026-27, a £209 miliwn yn 2027-28, sy'n rhoi cyfanswm cronnol o £628 miliwn ar gyfer y 3 blynedd nesaf.

74. Tynnodd sawl cyngor sylw at y ffaith nad yw'r costau a'r galw cynyddol ar draws y gwasanaethau cymdeithasol dangos unrhyw arwydd o leihau. Ar ben hyn, mae

[7] Cyfanswm y gyllideb gwariant refeniw net yn 2024-24 yw £2.553 biliwn (Ffynhonnell: Ffurflenni Cyfrif Refeniw Llywodraeth Cymru)

[8] Pob Awdurdod Iechyd yn torri'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb wrth i bwysau ariannol waethygu | Archwilio Cymru

bregusrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol a adlewyrchwyd yn yr ymatebion gyda heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff. I rai, mae hyn yn golygu dibyniaeth barhaus ar weithwyr asiantaeth mwy costus, er y buddsoddir mewn mentrau megis “Grow Your Own”. I lawer, y gwasanaethau cymdeithasol yw’r maes risg mwyaf i gyllidebau cynghorau. Gwelir y pwysau’n fwyaf amlwg yma. Er bod cynghorau’n parhau i liniaru’r pwysau hyn drwy ddefnyddio meysydd eraill i ddarparu arbedion, llithriant a rhagor o incwm, bydd llawer o’r rhain yn untro o ran eu natur, gan adael cynghorau â phwysau rheolaidd sy’n effeithio ar y broses cynllunio cyllideb ar gyfer blynyddoedd i ddod.

75. Mae gwasanaethau a gomisiynir, sy’n hanfodol i ddarpariaeth gofal cymdeithasol, hefyd wedi’u heffeithio gan faterion tebyg i wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdod lleol. O ystyried y ddibyniaeth ar leoliadau a gomisiynir yn allanol, a’r cynnydd mewn galw amdanynt ar draws gwasanaethau plant ac oedolion, mae’r costau uwch yn gysylltiedig â’r costau rhedeg uwch yn ychwanegu at y pwysau ariannol sylweddol. Soniodd y cynghorau hefyd am bwysau sylweddol mewn perthynas â ffioedd wedi’u gosod ar draws cartrefi gofal nyrsio a phreswyl. Amlygwyd bod y gofyniad i ddarparwyr gofal cymdeithasol dalu’r Cyflog Byw Gwirioneddol, heb ddigon o arian ar gael yn y setliad, yn bryder penodol. Mae hyn yn ychwanegu at y pwysau chwyddiant a wynebir gan wasanaethau a gomisiynir.

76. Roedd y mwyafrif o’r ymatebion yn amlygu bod lefelau galw a chymhlethdod anghenion yn parhau i gynyddu. Cyfeiriwyd at effaith poblogaeth sy’n heneiddio a’r cynnydd yn nifer y bobl sy’n byw gyda dementia gan ychwanegu at y cymhlethdodau cynyddol a welir a’r goblygiadau canlyniadol o ran cost. Nododd un cyngor ei fod wedi gweld cynnydd o 15% mewn galw ar draws bob grŵp cleient o fewn Gwasanaethau Oedolion.

77. Yn yr ymatebion i’r arolwg, mynegwyd pryderon yn benodol ynghylch darpariaeth gofal cartref a’r pwysau a’r costau’n gysylltiedig â phecynnau gofal a chymorth ar draws y gwasanaethau gofal iechyd ac anableddau dysgu. Un risg a amlygwyd gan un cyngor oedd yr angen i gael gwell dealltwriaeth o’r goblygiadau ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn y dyfodol o ran y cynnydd sylweddol mewn anableddau plant a gwasanaethau plant cost uchel. Wrth i’r ddau gynyddu’n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, y pryder yw beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y rhai sy’n trosglwyddo i fod angen cymorth cost uchel fel oedolion.

78. Mae’r heriau sy’n wynebu gofal cymdeithasol hefyd yn effeithio ar y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, oherwydd bod GIG cynaliadwy, gyda’r llif angenrheidiol, yn dibynnu ar system gofal cymdeithasol sydd wedi’i hariannu’n briodol. Mae angen cydnabod y gwerth sydd gan ofal cymdeithasol yn ei rinwedd ei hun fel gwasanaeth. Ond, pan fo’r GIG a gwaith gofal cymdeithasol yn cydweithio’n dda, mae tystiolaeth fod hyn yn helpu pobl i wella ac i gadw pobl yn iach, ac felly yn lleihau’r galw ar wasanaethau iechyd eilaidd. Yma, gall cynghorau weithio’n agos gyda’r GIG i wella hunanreolaeth o gyflyrau, canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, defnydd gwell o wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol,

gwella mynediad at gefnogaeth gymunedol a gwybodaeth a chyngor, sydd i gyd yn wasanaethau sy'n atal pobl rhag mynd at y 'drws ffrynt' yn y lle cyntaf a lleihau pwysau ychwanegol ar y GIG.

79. Mae cynghorau, darparwyr gofal a'r gwasanaethau iechyd ehangach yn parhau i wneud popeth o fewn eu gallu i alluogi pobl i gael eu rhyddhau o ysbytai a dychwelyd i'w cartref gyda'r gefnogaeth gywir cyn gynted â phosibl, yn ogystal â chanolbwyntio ar atal derbyniadau i ysbytai yn y lle cyntaf. Mae hyn wedi cynnwys cynyddu gallu gofal cymunedol, gan ddarparu gwelyau gofal llai dwys a phecynnau gofal cymunedol ychwanegol, helpu pobl i fynd yn nes at adref a gwagio gwelyau mewn ysbytai. Mae hyn wedi amlygu'r manteision a geir wrth i gynghorau ac iechyd weithio mewn partneriaeth gydag ymdrech a rennir i ddarparu buddion gwirioneddol ac effeithiau cadarnhaol ar gyfer unigolion, ond mae hyn hefyd galw am fuddsoddi llawer iawn o amser ac adnoddau, yn cynnwys cyllid ychwanegol, i gefnogi'r gwaith hwn. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd datblygu modelau gofal cymunedol, sy'n edrych ar yr unigolyn cyfan ac yn mynd i'r afael ag iechyd corfforol, iechyd meddwl ac anghenion cymdeithasol gyda'i gilydd.

80. Ar yr un pryd, mae gan y diffyg capasiti ac adnoddau ym maes iechyd oblygiadau ar gyfer awdurdodau lleol. Mae costau ychwanegol wedi cael eu nodi gan o leiaf un cyngor yn gysylltiedig â phobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty pan nad yw'r unigolyn yn barod i gael ei ryddhau ac nid oes pecyn adsefydlu mewn lle gan iechyd, felly mae'n rhaid i gostau gael eu talu gan ofal cymdeithasol a chyllideb y gwasanaethau cymdeithasol.

81. Mynegwyd pryderon sylweddol hefyd yn yr ymatebion i'r arolwg mewn perthynas â Gofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio a Ariennir. Adroddwyd gan gynghorau nad yw lefel y Gofal Nyrsio a Ariennir a ddarperir yn ddigon i dalu'r gost, ac nad yw cartrefi gofal yn gallu ymdopi gyda'r cyfraniad Gofal Nyrsio a Ariennir sy'n cael ei wneud. Nodwyd hefyd bod trafodaethau gofal iechyd parhaus yn gallu bod yn heriol iawn. Golyga hyn fod costau yn aml yn cael eu pasio ymlaen o'r GIG i awdurdodau lleol, sydd, yn y bôn, yn golygu bod cynghorau yn gorfod cymorthdalu gofal iechyd, yn aml ar gost sylweddol.

82. Yn ogystal â hyn, mae rhai awdurdodau wedi cyfeirio at effeithiau ariannol 'Twristiaeth' gofal cymdeithasol pan fo cleientiaid yn symud draw o Loegr i elwa o'r trefniadau ffioedd gofal cymdeithasol mwy hael yng Nghymru. Mae cynghorau hefyd yn nodi gweld unigolion sydd wedi oedi cyn ceisio gofal iechyd ac felly wrth fynd at y gwasanaethau cymdeithasol yn awr mae ganddynt anghenion dibyniaeth uwch y mae angen darpariaeth gofal mwy costus arnynt.

83. Mae heriau sylweddol yn parhau i fod yn bresennol ar draws y Gwasanaethau Plant mewn perthynas â chanfod lleoliadau priodol i blant a phobl ifanc sy'n diwallu eu hanghenion penodol. Mae hyn yn ffactor mawr sy'n cynyddu costau yng Ngwasanaethau Plant gyda chynghorau'n nodi lefelau digynsail o leoliadau brys ar gyfer gofal preswyl, mwy o leoliadau annibynnol a mwy o bwysau i ganfod

lleoliadau maethu. Amlygwyd bod costau lleoliadau'n cynyddu'n sylweddol oherwydd bod y galw'n llawer uwch na nifer y lleoliadau ar gael, wrth i un cyngor weld cynnydd o 40% yng nghost lleoliadau newydd dros y 18 mis diwethaf. Rhoddodd un cyngor enghraifft o'r angen am leoliad dan orchymyn llys sy'n galw am gymhareb staffio 4:1 sy'n golygu y gallai'r costau gofal a chefnogaeth ar gyfer un plentyn fod yn £1 miliwn.

84. Roedd yr ymatebion i'r arolwg hefyd yn cydnabod bod yr angen i leoli plant drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (NTS) wedi cynyddu pwysau o ran costau ac wedi arwain at Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches (UASC) yn aml yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir/gwlad i ddiwallu eu hanghenion a nodwyd sy'n arwain at bwysau sylweddol o ran costau. Nododd un cyngor gynnydd o 146% yn nifer y Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches (gan gynyddu o 13 i 32) rhwng 2023/24 a 2024/25. Nid yw'r costau'n cael eu talu'n llawn gan y Swyddfa Gartref, gan arwain at orwariant rhagamcanol o £440,000 dros flwyddyn lawn ar gyfer y cyngor hwnnw.

85. Mae cyflwyniad deddfwriaeth i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn gwaethygu'r heriau hyn gyda phryderon ynglŷn â lefel yr adnoddau (refeniw a chyfalaf) i gyflawni'r uchelgais hwn a sut y byddant yn cael eu cwrdd. Daw hyn ar adeg o orwariant sylweddol ar draws y gwasanaethau plant, ynghyd â'r realiti ariannol llym yn gysylltiedig â chynnydd sefydlog gwariant llywodraeth leol a'r disgwyliad i allu blaenlwytho buddsoddiad i gefnogi datblygiad darpariaeth fewnol tra'n cynnal gwasanaethau presennol ar draws holl gyfrifoldebau'r cyngor. Mynegwyd pryderon ynghylch y costau ychwanegol sydd eisoes wedi codi a'r amhariad posibl i'r farchnad gan arwain at gostau cynyddol pellach a allai beryglu gallu'r cyngor i gyflawni canlyniadau diogel ar gyfer y plant hynny sydd angen gofal a chefnogaeth.

86. Bu i'r ymatebion i'r arolwg hefyd dynnu sylw at sawl her yn gysylltiedig â chyllid grant. Nodwyd bod nifer o grantiau sydd ond wedi'u cadarnhau hyd at 31 Mawrth 2025, yn cynnwys y cyllid sydd ar gael i gefnogi'r gwaith i symud ymlaen â'r ymrwymiad i ddileu elw. Mae nifer o grantiau eraill hefyd yn yr un sefyllfa, yn fwyaf amlwg, y Grant Cymorth Tai a'r Grant Plant a Chymunedau sy'n cefnogi'r ddarpariaeth o gymorth cynnar ac ymyrraeth, ceisio ymyrryd yn gynnar er mwyn cael canlyniadau gwell i bobl, hybu annibyniaeth, cadernid a helpu i osgoi'r angen am wasanaethau statudol drud. Y risg yw, os yw'r grantiau hyn yn diflannu, y bydd costau i wasanaethau statudol yn cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd i ddod. Soniwyd hefyd am effaith y gofyniad i drosglwyddo prosiectau a ariennir drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol o 'brif ffrwd i graidd' a mynegwyd pryderon y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau leihau darpariaeth gwasanaethau mewn mannau eraill neu ddod â phrosiectau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i ben er mwyn gallu ymdopi o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

87. Y risg yw, wrth i lefelau cyllid grant barhau i ostwng ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, y bydd angen cynnal adolygiadau o ddarpariaeth gwasanaeth a


thebygolrwydd uchel y bydd angen ystyried cynigion i leihau gwasanaethau'n barhaus.

Maes Blaenoriaeth 3 – Tai a Digartrefedd

88. Mae nifer uchel o bobl yn parhau i geisio cefnogaeth a chymorth gan gynghorau oherwydd eu bod yn ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref. Mae Cymru wedi parhau â'r dull o "neb wedi'i adael allan" mewn perthynas â digartrefedd, yn dilyn diwedd yr argyfwng iechyd cyhoeddus. Cefnogir y dull hwn gan Gynghorau, ond mae nifer yr aelwydydd sy'n cysylltu â'r awdurdodau am gymorth wedi parhau i gynyddu. Mae'r cynnydd parhaus hwn mewn cyflwyniadau digartrefedd i gynghorau yn y cyfnod ers y pandemig yn golygu bod mwyafrif llethol y gwasanaethau digartrefedd craidd bellach yn delio ag argyfyngau yn unig ac yn methu â gweithio i atal digartrefedd.

89. Mae'r galw wedi'i adlewyrchu yn y costau. Daw'r data yn ffigur 3 isod o ffurflenni cyllid cynghorau i Lywodraeth Cymru dros gyfnod o 11 mlynedd, gyda ffurflenni'r 3 blynedd olaf o'r ffurflenni cyllideb (cyfrif refeniw) gan nad yw'r alldro ar gael eto. Mae gwariant cyfredol net wedi cynyddu o £10.8 miliwn yn 2014-15 i £86.8 miliwn yn 2024-25.

**Ffigur 3:** Gwariant Cyfredol Net Cynghorau ar Ddigartrefedd a Llety Dros Dro, £000oedd




Ffynhonnell: Ffurflenni Alldro Refeniw / Cyfrif Refeniw Llywodraeth Cymru

90. Mae grantiau tai a digartrefedd Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad ac mae cyllid o ffynonellau eraill yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae mwyafrif helaeth y gwariant yn cael ei ariannu drwy gyllid cyffredinol sydd wedi datblygu ar gyfraddau o 23%, 54% a 34% yn y 3 blynedd ddiwethaf yn y drefn honno. Mae

hyn yn sylweddol uwch na'r cynnydd yn y setliad cyffredinol a threth y cyngor, sy'n awgrymu bod gwasanaethau eraill wedi cael eu torri er mwyn eu hariannu.

91. Mae rhyddhau carcharorion yn gynnar oherwydd ei bod yn orlawn mewn carchardai, yn cynnwys y rhai hynny yn y cynllun Dedfrydau Penodol Safonol 40 presennol, yn anochel yn arwain at nifer sylweddol o bobl heb lety ar gael iddynt ar ôl eu rhyddhau. Mae hyn yn rhoi rhagor o bwysau ar dimau dewisiadau tai ac yn cynyddu'r galw am lety dros dro mewn sawl ardal. Gall yr anghenion cymhleth sydd yn aml yn gysylltiedig â charcharorion, yn ogystal ag eraill sy'n ddigartref (ac yn cysgu allan), ei gwneud yn fwy anodd i ddod o hyd i lety dros dro priodol, a all fod yn fwy costus, ac wrth i gynghorau hefyd roi ystyriaeth i ddyletswyddau diogelu mewn perthynas ag anghenion eraill ac enwedig teuluoedd gyda phlant.

92. Mae pwysau ychwanegol o ran tai a galw a chostau cynyddol ar gyfer llety dros dro hefyd yn amlwg mewn sawl ardal o ganlyniad i gynlluniau ymfudo a diogelwch dyngarol amrywiol, yn cynnwys cystadleuaeth am eiddo sector rhentu preifat ar draws Cymru o ganlyniad i'r ardal wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches yn cael ei ehangu i bob ardal cyngor. Mae'n anochel y bydd penderfyniad Llywodraeth y DU i leihau'r ôl-groniad o benderfyniadau lloches yn arwain at nifer cynyddol o bobl yn gadael llety sy'n cael ei ddarparu gan y Swyddfa Gartref ac yn ceisio cymorth gan gynghorau i ddod o hyd i gartref, ac yn aml bydd arnynt angen llety dros dro cyn dod o hyd i gartref parhaol. Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol gan y Swyddfa Gartref i liniaru'r pwysau cynyddol ar gynghorau ar gyfer y gwaith hwn ac mae costau llety dros dro yn cynyddu'n gyflym.

93. Bydd y Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ddigartrefedd hefyd yn rhoi pwysau ariannol pellach ar gynghorau ac mae'n bwysig bod asesiad cadarn a thrylwyr o oblygiadau ariannol yr holl gynigion deddfwriaethol yn cael ei gynnal, mewn partneriaeth, fel bod lefelau priodol o gyllid yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithrediad llwyddiannus unrhyw newidiadau deddfwriaethol. Mae cynghorau yn cael eu hannog i ymgysylltu â'r gwaith sydd wrthi'n cael ei wneud gan Alma Economics ar ran Llywodraeth Cymru i sicrhau y datblygir darlun llawn a chredadwy o'r goblygiadau ariannol.

94. Mae'r data diweddaraf yn adlewyrchu bod mwy na 11,000 o bobl mewn llety dros dro ar hyn o bryd. Daw hyn ar gost sylweddol i gyllidebau cynghorau ac nid yw lefel y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, neu y gellir ei adennill gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn cyd-fynd â'r cynnydd yn y galw. Mae'r adborth o'r arolwg a gynhaliwyd yn adlewyrchu gorwariant ar gyllidebau digartrefedd ac yn bwysau ariannol cynyddol ar gynghorau. Cyfeiriodd un awdurdod at bwysau digartrefedd a gyfrannodd at orwariant o £660,000 yn y flwyddyn bresennol gan fod y galw yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael. Mae'r gyllideb Grant Cymorth Tai yn hollbwysig i gefnogi pobl ddigartref a'r rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd, gan gynnwys cyllid i gyrff trydydd sector, ac mae CLILC yn pwysleisio'r angen i gynnal y lefel bresennol o gyllid os nad oes cyllid ychwanegol ar gael.

95. Mae adeiladu mwy o dai yn hanfodol i sicrhau fod gennym ddigon i bawb sydd eu hangen, yn cynnwys yr aelwydydd hynny sy'n dod yn ddigartref neu sydd mewn tai nad ydynt yn ddigonol. Mae'r cynghorau hynny sydd â stoc tai yn gweithredu rhaglenni adeiladu newydd uchelgeisiol ac yn ceisio caffael cartrefi presennol (sy'n aml yn gyn eiddo Hawl i Brynu) i gynyddu nifer y cartrefi sydd ar gael ar gyfer rhent cymdeithasol. Mae costau cynyddol o ran tir, llafur a deunyddiau'n golygu bod y broses o adeiladau tai cyngor newydd sydd wir eu hangen wedi dod yn fwy costus - mae hyn yn bygwth hyfywedd llawer o gynlluniau adeiladu tai heb gymhorthdal cyfalaf cynyddol gan Lywodraeth Cymru.

96. Mae pob cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid LCC i adeiladu cartrefi rhent cymdeithasol carbon isel newydd. Mae'n bwysig felly sicrhau bod cyllid cyfalaf ar gael i gefnogi adeiladu tai cymdeithasol ar y cyflymder a'r raddfa sydd eu hangen i leihau dibyniaeth ar lety dros dro a sicrhau y gellir diwallu anghenion tai dinasyddion.

97. Fodd bynnag, daeth yr adroddiad diweddar ar Dai Fforddiadwy gan Archwilio Cymru i'r casgliad y bydd angen i Lywodraeth Cymru wario llawer mwy na gynlluniwyd i gyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol erbyn mis Mawrth 2026, bydd hyn yn cael ei wneud drwy gymhorthdal cyfalaf cynyddol i gynghorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gefnogi darpariaeth tai ychwanegol.

98. Mae cynghorau'n cefnogi cyflawni amcanion tai allweddol Llywodraeth Cymru, a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, fodd bynnag, mae angen cyllid digonol i alluogi darpariaeth lwyddiannus. Yn ogystal â'r materion uchod, mae pwysau ariannol arall ym maes tai yn deillio o ddiwygio'r drefn diogelwch adeiladau, bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru ddiwygiedig, pwysau ar y gweithlu a llenwi unrhyw fylchau gweithlu (er enghraifft adroddiad diweddar Archwilio Cymru ar Reoli Adeiladu) a'r uchelgeisiau mewn perthynas â datgarboneiddio mwy o gartrefi.

99. Mae gan landlordiaid cymdeithasol, yn cynnwys y cynghorau hynny gyda stoc dai, angen sicrwydd hirdymor mewn perthynas ag incwm rhent er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwella eiddo presennol, a datblygu cartrefi newydd sydd wir eu hangen. Mae'r setliad Rhent Cymdeithasol cyfredol a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru wedi cael ei ymestyn i gynnwys 2025-26, ac mae gwaith wedi dechrau ar fframwaith setliad rhent cymdeithasol newydd. Mae'n hanfodol bod unrhyw setliad rhent cymdeithasol yn y dyfodol yn fforddiadwy i denantiaid ac yn darparu sicrwydd ynghylch lefelau incwm digonol yn y dyfodol i landlordiaid er mwyn iddynt allu darparu gwasanaethau a thai newydd sy'n diwallu anghenion tenantiaid presennol a thenantiaid newydd.

100. I leihau nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref ac angen llety dros dro, mae angen i gynghorau gael yr adnoddau llawn i gefnogi aelwydydd ac ymyrryd mewn ffyrdd sy'n atal digartrefedd yn y lle cyntaf. I ddarparu cartrefi ar gyfer y miloedd ar filoedd o bobl ar restrau aros tai ar draws Cymru, ac i roi cyfleoedd i'r rhai hynny mewn llety dros dro brys ac anfoddhaol i 'symud ymlaen' i lety parhaol sy'n addas a

fforddiadwy, mae angen gweld cynnydd sylweddol a pharhaus o ran y rhaglenni datblygu sy’n darparu tai newydd ar gyfer cynghorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Bydd hyn yn galw am gynnydd sylweddol o ran lefel y cymhorthdal cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn yr adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru.

Maes Blaenoriaeth 4 - Datblygu Economaidd Rhanbarthol a Lleol

Yn Cynnwys y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin

101. Mae twf economaidd cynaliadwy ar bob lefel ofodol wedi'i nodi fel ffordd allweddol i leihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus a chynhyrchu'r refeniw treth sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaethau hyn gyda'r cyllid ychwanegol maent ei angen.

102. Felly, mae'n rhaid gwneud yn siŵr bod creu amodau ar gyfer 'twf da' yn flaenoriaeth bennaf. Mae cytuno ar y trefniadau 'sefydliadol' ar gyfer datblygu economaidd ar lefelau'r DU, Cymru, rhanbarthol a Lleol yn hanfodol i hyn. Wrth aros am gyllid i ddisodli'r cyllid blaenorol o'r UE, gwnaed llawer o ymdrech i ddatblygu Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol i Gymru, dan arweiniad Llywodraeth Cymru a chyda mewnbwn gan gynghorau a budd-ddeiliaid eraill. Roedd hwn yn edrych ar rolau priodol ar lefel Cymru gyfan, rhanbarthol a lleol ac yn cael ei lywio gan waith a gomisiynwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

103. Defnyddiodd cyn Lywodraeth y DU Ddeddf y Farchnad Fewnol er mwyn gallu dyrannu cyllid mewn meysydd wedi'i datganoli i Gymru. Roedd hynny'n cynnwys yr olynydd i gyllid yr UE, at ddibenion datblygu economaidd a chymuned. Dyrannwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y DU ar sail awdurdod lleol, fe'i chydlynwyd gan awdurdodau arweiniol yn cydweithio gyda chynghorau cyfansoddol ar lefel ranbarthol. Mae wedi cynnwys cymysgedd o gyllid refeniw a rhywfaint o gyllid cyfalaf. Yn ogystal, fel rhan o'r polisi Ffyniant Bro ehangach, mae Cronfa Ffyniant Bro (gystadleuol) wedi cael ei dyfarnu'n uniongyrchol i gynghorau i gefnogi ystod o brosiectau cyfalaf yn bennaf ar draws Cymru.

104. Gyda'i gilydd, dyrannodd Llywodraeth y DU £585 miliwn i Gymru drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Roedd hyn yn cynnwys £101 miliwn a ddyrannwyd gan Lywodraeth y DU i gefnogi rhaglen rhifedd i oedolion o'r enw Lluosi. Roedd y dyraniadau fesul rhanbarth fel y nodir yn y Tabl isod:

| Rhanbarth | CFfG Craidd | Lluosi | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| Rhanbarth Prifddinas Caerdydd | £230.4 miliwn | £48.1 miliwn | £278.5 miliwn |
| Canolbarth Cymru | £35.1 miliwn | £7.3 miliwn | £42.4 miliwn |
| Gogledd Cymru | £104.6 miliwn | £21.8 miliwn | £126.4 miliwn |
| De Orllewin/Bae Abertawe | £114.0 miliwn | £23.8 miliwn | £137.8 miliwn |

105. Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau nad yw'r cyllid hwn yn cyd-fynd â lefel y cyllid UE yr oedd Cymru yn arfer ei gael. Mae'n cyfrifo y byddai cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop wedi bod werth £1.404 biliwn am y cyfnod o fis Ionawr 2021 i fis Mawrth 2025, gan ganiatáu ar gyfer chwyddiant a chyfraddau cyfnewid. Mae'r ffigyrau'n awgrymu, gan roi

ystyriaeth i'r £47 miliwn o gynllun peilot y Gronfa Adfywio Cymunedol yn 2021/22, bod y cyfanswm o £632 miliwn dros y cyfnod hwn £772 miliwn yn llai na'r hyn y dylai fod wedi'i gael.[9]

106. Oherwydd oedi o ran dyrannu cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y DU ar ddechrau'r rhaglen, a'r angen i ganiatáu amser i ddod â'r rhaglen i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2025, mae rhaglen a ddylai fod wedi para am 3 blynedd wedi cael ei chrynhoi i 18 mis. Fodd bynnag, mae cynghorau wedi gweithio'n dda ac wedi llwyddo i hwyluso'r ddarpariaeth cymaint â phosibl, gan gefnogi ystod eang o brosiectau o dan y 3 thema 'Cymunedau a Lle', 'Cymorth i Fusnesau' a 'Pobl a Sgiliau'.

107. Yn nwy rownd gyntaf y Gronfa Ffyniant Bro, derbyniodd Cymru £329 miliwn o gyfanswm y DU o £3.8 biliwn, neu 8.7% (£121 miliwn yn rownd 1 a £208 miliwn yn rownd 2). Dyrannwyd £111 miliwn arall i brosiectau yng Nghymru yn y drydedd rownd, gan wneud cyfanswm o £440 miliwn. Roedd cyfanswm cyllid y Gronfa Ffyniant Bro yn £4.8 biliwn ar gyfer y DU, felly, at ei gilydd, *dyrannwyd* 9.2% i Gymru. Fodd bynnag, mae rhai o ddyraniadau rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro wrthi'n cael eu hadolygu gan lywodraeth newydd y DU, sydd wedi nodi ei bod eisiau newid o'r dull 'Ffyniant Bro'. Os nad oes cytundeb wedi cael ei lofnodi gyda'r cynghorau dan sylw, efallai y bydd rhai o'r dyfarniadau hynny yn awr mewn perygl.

108. Gyda'i gilydd, mae *dyraniadau'r* Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro i Gymru gan gyn Lywodraeth y DU yn gwneud cyfanswm o £1,025 miliwn. Er i Lywodraeth Cymru ddadlau, fel y nodir ym mharagraff 53, bod y swm cyffredinol ar gael i Gymru wedi bod yn llai na'r hyn a gafwyd dan drefniadau ariannu'r UE, mae'n amlwg yn dal i gynrychioli swm sylweddol o gyllid i gefnogi gweithgareddau datblygu economaidd yng Nghymru.

109. Gyda'r newid i Lywodraeth y DU yn gynharach eleni, mae'r sefyllfa o ran unrhyw raglen olynol pan fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dod i ben fis Mawrth nesaf yn aneglur ar hyn o bryd. Yr unig sicrwydd sydd wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd yw nad ellir cario drosodd unrhyw danwariant ar ddiwedd y rhaglen. Mae CLILC wedi bod yn lobïo am estyniad o flwyddyn i'r gronfa er mwyn gallu cyflawni prosiectau'n llawn i gael y manteision gorau. Fodd bynnag, ni ddisgwylir penderfyniad ar hyn rŵan nes y bydd yr Adolygiad o Wariant yn cael ei gyhoeddi. Mae'n ymddangos yn debygol y gellid cael blwyddyn arall o gyllid ar gyfer 'blwyddyn bontio', tra bod rhaglen newydd yn cael ei datblygu. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod hyn yn galluogi parhad prosiectau presennol oherwydd bod rhaid iddynt ddod i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Mae hyn yn codi cwestiynau am y rhaglen bresennol ac am sut a phryd y bydd lefelau cyllido a

[9] Gweler Datganiad Ysgrifenedig: Diffyg cyllid i Gymru o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer disodli cyllid UE (4 Mai 2022) | GOV.WALES.

threfniadau darparu ar gyfer unrhyw raglen olynol yn cael eu cyhoeddi.

110. Mae’r pryderon gyda’r rhaglen bresennol yn cynnwys, yn gyntaf, efallai y bydd angen dod â llawer o brosiectau i ben yn fuan neu efallai na fydd yn hyfyw bellach, gan leihau’r allbynnau a’r canlyniadau a ddisgwylir. Yn ail, efallai y bydd staff a gyflogir o dan y rhaglen yn dechrau gadael am swyddi eraill oni bai bod cyhoeddiad cynnar ynglŷn â chynllun newydd sy’n cynnwys rôl sylweddol a pharhaus ar gyfer cynghorau. Os yw rôl cynghorau’n llai yn y dyfodol, bydd nifer sylweddol o swyddi’n cael eu colli ar draws Cymru ymysg y rhai hynny sydd wedi’u cyflogi dan y rhaglen ar hyn o bryd.

111. O ran rhaglen yn y dyfodol, mae CLILC wedi galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i fod yn rhan o’r trafodaethau. Mae CLILC wedi ysgrifennu at Angela Rayner AS ac Eluned Morgan AS yn cynnig gweithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel partneriaid, i gytuno ar y ffordd ymlaen yng Nghymru. Mae galw brys am drafodaeth dair ffordd o’r fath, yn enwedig oherwydd y nifer sylweddol o swyddi ar draws Cymru a ariennir drwy’r Gronfa Ffyniant Gyffredin sydd mewn perygl oherwydd yr ansicrwydd presennol.

112. Wrth edrych tua’r dyfodol, mae gwersi y gallwn dynnu arnynt o ddarpariaeth y Gronfa Ffyniant Bro / y Gronfa Ffyniant Gyffredin, lle mae cynghorau wedi gweithio ar y cyd ar lefel ranbarthol. Mae’n bwysig, hefyd, bod cynigion datganoli yn Lloegr yn cael eu cyfateb gan fesurau cyfartal a phriodol yng Nghymru, gan adeiladu ar drefniadau rhanbarthol presennol.

113. Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU wedi galw am ddatblygu Cynlluniau Twf Lleol ac mae’n dymuno datganoli pecynnau cyllid integredig a chyfrifoldebau i Awdurdodau Cyfun Maerol. Ar ôl blwyddyn bontio, mae rhaglen olynol yn debygol o weld arian yn cael ei ddyrannu i Awdurdodau Cyfun Maerol ac awdurdodau sir yn Lloegr mewn ymateb i’r cynlluniau maent yn eu cyflwyno.

114. Mae Llywodraeth Cymru’n awyddus i weld Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn datblygu’r rolau cynllunio strategol maent wedi’u cael. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal ynglŷn â grantiau cludiant yn cael eu datganoli i’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar ôl cyfnod o bontio.

115. Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed ar y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol, mae LlC yn debygol o fod eisiau gweld Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn chwarae rhan bwysig yn rheolaeth rhai elfennau o gyllid ar gyfer datblygu economaidd sy’n dod o unrhyw raglenni sy’n olynu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin / y Gronfa Ffyniant Bro. Fodd bynnag, mae sut y bydd hyn yn gweithio yn parhau i fod yn destun trafodaeth rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Y risg ar gyfer cynghorau yw y bydd rhan fawr o unrhyw gyllid o’r fath yn cael ei dyrannu i lefelau cenedlaethol a rhanbarthol a bydd llawer o’r gweithgareddau lleol sydd wedi cael eu cefnogi dan y Gronfa Ffyniant Cyffredin yn cael eu hystyried yn anstrategol ac yn colli cyllid.

116. Risg arall yw bod y broses ar gyfer dyrannu cyllid yn dod yn rhy fiwrocrataidd a 'haenog'. Mae'n bosib y gallai hynny olygu bod cyllid yn cael ei basio o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru a / neu Swyddfa Cymru, ac yna rhywfaint o'r cyllid hwnnw yn cael ei basio i lawr i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ac yna i lefel cynghorau lleol. Gall trafodaethau partneriaeth tair ffordd helpu i nodi'r ffordd fwyaf effeithlon o gael cyllid i'r lefel ddaearyddol gywir gyda chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl. Mae'n hanfodol bod y gwersi sy'n cael eu dysgu dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn cynnwys llawer o ganlyniadau cadarnhaol, yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen. Os yw cynghorau'n colli mynediad at gyllid yna fe allai hyn danseilio eu gallu i hyrwyddo datblygu economaidd ar lefel leol.

117. Mae gwybodaeth a chysylltiadau lleol yn hanfodol i lwyddiant datblygu economaidd, yn ogystal â gallu cynghorau i gydlynu cefnogaeth ar draws eu hystod lawn o wasanaethau. Mae hyn yn pwysleisio'r pwysigrwydd o lobïo i gynghorau barhau i gael rôl ganolog mewn unrhyw raglen olynol.

118. Mae cludiant yn chwarae rhan hanfodol yn natblygiad economaidd. Cyn Covid, roedd bysiau'n darparu bron i 100 miliwn o siwrneiau teithwyr y flwyddyn yng Nghymru gyda llawer o'r siwrneiau hynny yn mynd â theithwyr i'w gwaith. Mae cynghorau wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a gweithredwyr, yn ystod ac ar ôl Covid, i gynnal y diwydiant drwy gyfnod pan fo nifer y teithwyr wedi gostwng yn sylweddol. Mae'r gwaith i adfer lefel y nawdd yn parhau ac mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynlluniau i gyflwyno masnachfreinio gwasanaethau bysiau. Yn y cyfnod interim, bydd cymysgedd o wasanaethau masnachol a gwasanaethau â chymhorthdal yn parhau i weithredu. Mae'n hanfodol bwysig bod lefel y cyllid sydd ar gael i gynghorau i gefnogi gwasanaethau yn 2025/26 yn cynyddu yn unol â phwysau chwyddiant (yn enwedig costau tanwydd a llafur). Byddai cyllideb cyllid gwastad yn galw am doriadau i wasanaethau. Byddai hynny'n tanseilio ymdrechion i ailadeiladu'r nifer sy'n teithio ar gludiant cyhoeddus a symud tuag at y nod o newid moddol a lleihau allyriadau cludiant.

## Maes Blaenoriaeth 5 - Cyfalaf a Buddsoddi

119. Mae pwysigrwydd buddsoddiad sector cyhoeddus parhaus i dwf economaidd hirdymor wedi cael ei bwysleisio'n ddiweddar gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.[10] Mae'r ymatebion yn nodi y bydd setliad refeniw tynn yn effeithio ar raglenni cyfalaf. Ar draws rhaglenni cyfalaf rydym yn gweld cynnydd mewn costau o'r adeg y cymeradwywyd y rhaglen ar y cam dichonoldeb, i'r cam dylunio a datblygu prosiectau cyfalaf, oherwydd y cyfraddau chwyddiant presennol ac ansefydlogrwydd y farchnad adeiladu. Gydag ychydig neu ddim cyllid ychwanegol ar gael, bu llawer o ail-flaenoriaethu rhwng cynlluniau a lleihau lle bo modd.

[10] Papur Trafod Rhif.5: Buddsoddiad Cyhoeddus ac Allbwn Posibl (obr.uk)

120. Er bod chwyddiant wedi dychwelyd i lefelau mwy arferol, mae costau wedi aros ar y lefelau cynyddol ond nid yw cyllid cyfalaf craidd wedi cyd-fynd â chwyddiant, gan arwain at gyllidebau cyfalaf craidd yn aros yr un fath. Gwelir cynnydd mewn costau ar draws y rhaglen gyfan, gan arwain at rai cynlluniau yn dod yn anfforddiadwy a / neu ddim yn darparu gwerth am arian. Mae'r Arian Cyfalaf Cyffredinol wedi cynyddu tua 4% yn nhermau arian parod ers y pandemig, a chwyddiant cyffredinol yn y diwydiant adeiladu[11] wedi cynyddu chwe gwaith yn gyflymach.

121. Lle bo'n bosibl, mae rhaglenni'n cael eu hailbroffilio, fodd bynnag, nid yw hyn yn datrys y pwysau ar y gyllideb, efallai y bydd yn ei ledaenu dros gyfnod hirach a fydd wedyn yn cynyddu'r costau eto. Mae sawl awdurdod yn darganfod bod contractwyr wedi dod yn fwy parod i wrthwynebu mewn perthynas â chontractau a chynnydd costau oherwydd eu bod yn gweithio i brisiau tynn iawn gan is-gontractwyr a chyflenwyr. Gall hyn effeithio ar y prisiau terfynol ar gyfer cynlluniau. Mae materion brys yn allwthio'r materion pwysig gydag ôl-groniadau cynnal a chadw cynyddol ystadau a phriffyrdd yn cael eu blaenoriaethu dros brosiectau strategol oherwydd dogni cyfalaf.

122. Oherwydd y pwysau ar y cyllidebau refeniw, mae costau'n cael eu hadolygu a'u herio'n barhaus o ran yr hyn y gellir ei gyfalafu, fodd bynnag, heb gyllid cyfalaf ychwanegol mae'n arwain at gyllideb lai i'w gwario ar ddarparu'r cynllun. Yn yr un modd, mae unrhyw gyllid refeniw blynyddol a oedd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r rhaglen gyfalaf wedi cael ei dynnu.

123. Mae cyfraddau llog y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn cael effaith ar gynlluniau a ariennir gan Fenthyca Darbodus, o ran yr achosion busnes ar gyfer cyfnodau benthyca a thalu'n ôl (e.e. cynlluniau buddsoddi i arbed) a'r effaith mae'r costau llog yn ei gael ar y gyllideb refeniw.

124. Daw hyn ar adeg pan fydd angen adnoddau ychwanegol sylweddol i fuddsoddi mewn pedwar prif faes:

- isadeiledd digidol i wella gwasanaethau a chynhyrchiant, er enghraifft Cyswllt Gofal
- buddsoddiad mewn gofal preswyl i gefnogi'r *Agenda Dileu Elw*
- buddsoddiad mewn tai ar gyfer cynghorau sy'n landlordiaid cymdeithasol.

[11] Mynegeion Prisiau Allbwn Adeiladu y SYG o fis Ebrill 2019 i fis Mehefin 2024, y DU. Crynodeb. Mynegai yr holl waith adeiladu (gwaith newydd ac atgyweirio a chynnal a chadw)

- datgarboneiddio ystadau[12] ac isadeiledd Cerbydau Trydan i gefnogi sero net

125. Mae'r her fawr o gymryd mesurau lliniaru ac addasu newid hinsawdd angenrheidiol yn cael ei chydnabod gan bob cyngor. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried mesurau newid hinsawdd fel 'eitem' ar wahân sydd angen ei hariannu ond rhywbeth sy'n rhan annatod o bob maes gwasanaeth. Felly, yn unol â'r pedwar blaenoriaeth arall a amlinellir yn yr adroddiad hwn, mae angen rhoi gwariant cyfalaf ar ysgolion newydd, darpariaeth gofal cymdeithasol, tai a datblygu economaidd ar waith mewn ffyrdd sy'n helpu i fynd i'r afael â'r her.

126. I'r graddau y bydd costau ymlaen llaw yn uwch, mae angen cyfalaf ychwanegol i helpu i gau'r bwlch mewn costau. Dros amser, fodd bynnag, fe ddylai costau oes fod yn is o ganlyniad i adeiladau, cartrefi gofal, tai ac unedau busnes sydd â lefelau allyriadau is ac sy'n fwy effeithlon o ran ynni / hunangynhaliol, a chostau rhedeg a chynnal a chadw is ar gyfer cerbydau trydan.

127. Felly, mae cyfleoedd 'buddsoddi i arbed' mawr yn cyd-fynd â'r meysydd blaenoriaeth yn yr adroddiad hwn. Gellid cyflymu'r rhain pe bai mwy o arian cyfalaf ar gael. Er, dylid nodi bod goblygiadau o ran refeniw hefyd, o ran y gost o drosglwyddo i weithrediadau sero net, yn gysylltiedig â gwaith dylunio a datblygu gweithlu gyda'r sgiliau angenrheidiol i adeiladu / ôl-osod a gweithredu asedau newydd mewn marchnad lafur sy'n gystadleuol iawn.

---

[12] Mae gwaith cychwynnol gan Bartneriaethau Lleol yn awgrymu y bydd angen dros £1 biliwn i dalu'r gost gyfalaf o drin adeiladau cynghorau ar draws Cymru os yw mesurau datgarboneiddio, inswleiddio neu ynni adnewyddadwy yn cael eu gosod. Mae Partneriaethau Lleol yn nodi bod hwn yn danamcangyfrif o gyfanswm y costau oherwydd:

(1) mae eu ffigyrau cost cyfalaf yn seiliedig ar fanylion gofod llawr, a ddarparwyd ar gyfer 83% o'r adeiladau a adroddwyd yn unig
(2) maent yn nodi nad ydynt wedi cynnwys costau prosiect eraill a fydd yn rhaid eu talu, ac fe allai hyn ychwanegu 30-40% at gyfanswm y costau cyflawni (e.e. arolwg, dylunio, arian at raid). Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i alluogi pob cyngor i ddatblygu darlun mwy cywir.

## Casgliad

128. I gloi, mae ein hamcangyfrifon diweddaraf o bwysau yn parhau i fod yn hynod uchel, maent yn dangos arwydd y byddant yn lleihau yn y tymor canolig, yr arwyddion yw y byddant yn aros yn sylweddol uwch na'r lefel a ystyrir yn arferol. Heb ragor o gyllid, mae awdurdodau lleol yn wynebu penderfyniadau amhosibl ar gyfer y gwasanaethau ataliol mae llywodraeth leol yn eu darparu a'r bobl sy'n dibynnu arnynt. Byddai bwlch yn y gyllideb awdurdod lleol yn debyg i'r llynedd yn drychinebus i'r GIG sy'n dibynnu ar system ofal wedi'i hariannu'n dda. Byddai toriadau pellach yn ddigalon i'n gweithlu.

129. Yn ddiweddar, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i ariannu codiadau cyflog ar draws y sector cyhoeddus. Croesewir yr ymrwymiad hwn i'n gweithlu yn enwwedig o ystyried erydiad cyflog y sector cyhoeddus yn y blynyddoedd diweddar. Rydym yn ddiolchgar bod y Prif Weinidog wedi nodi ei bod eisiau gwarchod gwasanaethau lleol. Rydym yn croesawu'r dull partneriaeth i ffurfio perthynas newydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Mae'r berthynas waith agos rydym wedi'i datblygu dros y blynyddoedd diweddar wedi bod yn llwyddiannus hyd yma. Rydym wedi ymrwymo i barhau gyda'r dull hwnnw er mwyn diogelu ein blaenoriaethau a rennir rhag yr effeithiau gwaethaf o'r stormydd economaidd sydd i ddod.

---

**Cliriwyd gan:** Cynghorydd Anthony Hunt, Llefarydd CLlLC ar Gyllid

**Awduron:** Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau
Nathan Gardner, Rheolwr Cyllid

[redacted] [redacted]
[redacted] [redacted]

**ATODIAD I**

## Pwysau ariannol a ragfynegir, 2025-26 i 2027-28

| | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|
| **<u>A. Local Authority Related (excluding schools and social services)</u>** | | | |
| Pay inflation pressures | 63,674 | 59,519 | 66,084 |
| Non pay inflation pressure | 34,443 | 30,716 | 30,480 |
| Fees/Charges inflation (positive) | - 4,084 | 4,184 | 546 |
| **LA Inflation (Stand Still) pressures** | 94,033 | 94,419 | 97,110 |
| **Budget pressures** | | | |
| a. Demand related pressures | 47,453 | 28,744 | 25,358 |
| b. Capital financing pressures | 15,719 | 8,266 | 6,525 |
| c. Reduction in specific grants | 10,765 | 1,543 | 484 |
| d. Local priorities | 6,778 | 2,987 | 1,496 |
| e. Other | 41,740 | 11,536 | 10,916 |
| **LA budget pressures** | 122,455 | 53,077 | 44,780 |
| **Total LA-related** | **216,488** | **147,496** | **141,890** |
| **<u>B. Schools</u>** | | | |
| Pay inflation pressures | 91,121 | 79,029 | 85,450 |
| Non pay inflation pressure | 2,675 | 6,459 | 6,374 |
| Fees/Charges inflation (positive) | - 468 | - 478 | - 498 |
| **Inflation (Stand Still) pressures** | 93,327 | 85,010 | 91,326 |
| **Budget pressures** | | | |
| a. Demand related pressures | 13,593 | 14,582 | 11,325 |
| b. Capital financing pressures | - 1,303 | - 1,267 | - 1,506 |
| c. Reduction in specific grants | 952 | 100 | 100 |
| d. Local priorities | 1,260 | 956 | - |
| e. Other | 11,977 | 11,756 | 11,761 |
| **Total Schools Budget Pressures** | 26,479 | 26,127 | 21,680 |
| **Total Schools** | **119,807** | **111,137** | **113,005** |

## Pwysau ariannol a ragfynegir, 2025-26 i 2027-28 (parhad)

| | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|
| **C. Social Services** | | | |
| Pay inflation pressures | 27,644 | 25,128 | 28,399 |
| Commissioning Cost Pressures - Adults' | 67,565 | 64,175 | 62,312 |
| Commissioning Cost Pressures - Children's | 18,751 | 17,251 | 16,066 |
| Non pay inflation pressure | 16,509 | 21,067 | 26,222 |
| Fees/Charges inflation (positive) | - 821 | - 1,592 | - 1,704 |
| **Inflation (Stand Still) pressures** | 129,647 | 126,029 | 131,295 |
| **Budget pressures** | | | |
| a. Demand related pressures | | | |
| **Adults Services** | | | |
| Domiciliary Care (incl supported living) | 19,064 | 13,091 | 12,520 |
| Residential Placements | 20,653 | 13,284 | 16,634 |
| Other | 8,250 | 5,240 | 4,532 |
| **Childrens Services** | | | |
| Domiciliary Care | 2,261 | 2,328 | 2,549 |
| Residential Placements | 29,077 | 13,787 | 13,389 |
| Foster Care | 434 | 1,195 | 1,188 |
| Other | 6,992 | 9,781 | 11,085 |
| b. Capital financing pressures | 350 | 60 | 12 |
| c. Reduction in specific grants | 2,419 | 4,430 | 8,754 |
| d. Local priorities | 409 | 25 | 50 |
| e. Other | 3,175 | 6,578 | 7,242 |
| **Total SC Budget Pressures** | 93,085 | 69,799 | 77,955 |
| **Total Social Services** | **222,732** | **195,828** | **209,250** |
| **Total Pressures** | **559,026** | **454,461** | **464,145** |

**Ffynhonnell:** Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru (2024) - 22 Ffurflen (amcangyfrifon y Gwasanaethau Tân ac Achub wedi'u cario ymlaen o 2023)

**ATODIAD II**

## Pwysau ariannol a ragfynegir ar gyfer blwyddyn 2024-25 (dros y gyllideb)

| | | |
|---|---|---|
| | | £000s |
| **A. Local Authority Related (excluding schools and socia** | | |
| Pay inflation pressures | | 5,085 |
| Non pay inflation pressure | | 7,318 |
| **Inflation (Stand Still) pressures** | | 12,403 |
| **Financial pressures** | | |
| a. Demand related pressures | | 27,584 |
| b. Capital financing pressures | - | 2,898 |
| c. Reduction in specific grants | | 1,264 |
| d. Local priorities | | 150 |
| e. Other | | 1,863 |
| **LA Budget Pressures** | | 27,963 |
| **Total LA Related** | | **40,366** |
| **B. Schools** | | |
| Pay inflation pressures | | 25,916 |
| Non pay inflation pressure | | 24,907 |
| Fees/Charges inflation (positive) | | - |
| **Schools Inflation (Stand Still) pressures** | | 50,823 |
| **Financial pressures** | | |
| a. Demand related pressures | | 17,915 |
| b. Capital financing pressures | | 21,073 |
| c. Reduction in specific grants | | 2,202 |
| d. Local priorities | | - |
| e. Other | - | 140 |
| **Total Schools Budget Pressures** | | 41,050 |
| **Total Schools** | | **91,873** |

## Pwysau ariannol a ragfynegir ar gyfer blwyddyn 2024-25 (parhad)

| | £000s |
|---|---|
| **C. Social Services** | |
| Pay inflation pressures | 1,960 |
| Commissioning Cost Pressures - Adults' | 5,553 |
| Commissioning Cost Pressures - Children's | 10,209 |
| Non pay inflation pressure | 1,914 |
| **Inflation (Stand Still) pressures** | 19,636 |
| **Financial pressures** | |
| a. Demand related pressures | |
| **Adults Services** | |
| Domiciliary Care (incl supported living) | 17,382 |
| Residential Placements | 15,841 |
| Other | 5,590 |
| **Childrens Services** | |
| Domiciliary Care | - |
| Residential Placements | 38,011 |
| Foster Care | 850 |
| Other | 8,927 |
| **Total Social Services Budget Pressures** | 86,601 |
| **Total SC Pressures** | **106,237** |
| **Total projected financial pressures (A+B+C)** | **238,476** |

**Ffynhonnell:** Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru (2024) - 21 Ffurflen (wedi'i grosio ar gyfer y ffurflen sydd ar goll)